



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 7FED EBRILL, 2022

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Sioned Mai Jones

01286 679665

SionedMaiJonesJones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 30 Mawrth 2022)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Beca Brown
Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones
John Pughe Roberts

Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams

Llais Gwynedd (1)

Y Cyngorydd
Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cyngorydd
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cyngorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

4. COFNODION

4 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 25 Ionawr 2022 fel rhai cywir

5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: TÎM ARWEINYDDIAETH A GWASANAETHAU CYFREITHIOL 12 - 17

Derbyn diweddariad ar sut mae'r Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithredu'r Polisi Iaith a'u cynllun ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd

6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN YMGYNGHORIAETH A GWYNNEDD 18 - 36

Derbyn diweddariad ar sut mae Adran YGC yn gweithredu'r Polisi Iaith a'u cynllun ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd

7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ECONOMI A CHYMUNED 37 - 42

Derbyn diweddariad ar sut mae Adran Economi a Chymuned yn gweithredu'r Polisi Iaith a'u cynllun ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd

8. DIWEDDARIAD AR WAITH HUNANIAITH - MENTER IAITH A GWYNNEDD 43 - 50

I ystyried yr adroddiad

9. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNIION 51 - 55

Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac enghreifftiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor

Eitem 4

PWYLLGOR IAITH DYDD MAWRTH, 25 IONAWR 2022

YN BRESENNOL: Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Judith Humphreys (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Beca Brown, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Eric M Jones, Cai Larsen, John Pughe Roberts ac Elfed Williams

SWYDDOGION: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Llio Mai Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg). Ffion Bryn Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL:

- Eitem 5: Cyng. Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Rhian Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd)
- Eitem 6: Cyng. Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol),
- Eitem 7: Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Siôn Elwyn Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol Tai)
- Eitem 9: Emyr Edwards (Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth), Lowri Morton (Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg) a Nia Jones (Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyngorydd Elin Walker Jones

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 19 Hydref 2021 fel rhai cywir yn ddarostyngedig ar gynnwys y Cyng. Eric M Jones yn bresennol yn y cyfarfod.

5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cyngorydd Cemlyn Williams yn

manylu ar gyfraniad yr Adran Addysg i weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd. Manteisiodd ar y cyfle i amlygu rhai o uchafbwyntiau'r Adran Addysg ynghyd a rhai heriau maent yn wynebu i'r dyfodol.

Tynnwyd sylw at 'Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt' a'r buddsoddiad o £1.1 miliwn o arian cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru i sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd yn Tywyn a Bangor, ynghyd â gwella'r cyfleusterau presennol ym Mhorthmadog. Cyfeiriwyd at y strategaeth ddysgu digidol arloesol ac uchelgeisiol sydd yn anelu i ddarparu gliniaduron a/neu ddyfeisiadau digidol i holl ddisgyblion ac athrawon y sir gan sicrhau mynediad didrafferth at waith yn yr ysgol ac yn y cartref. Ategodd y Pennaeth Addysg mai'r gobaith yw ffurfweddu'r dyfeisiadau yn y Gymraeg fyddai'n galluogi'r plant i gyfathrebu gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau yn y Gymraeg a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yng nghyd-destun rhai o'r heriau, amlygwyd pryder bod safon yr iaith a sgiliau iaith cymdeithasol wedi dirywio mewn rhai ardaloedd yn ystod y pandemig. Ystyriwyd hynny yn anochel efallai, oherwydd bod llai o gyswllt rhwng disgyblion a'u hathrawon /cymorthyddion, er ymgais cyson gan ysgolion i gadw cysylltiad gyda disgyblion i geisio adennill tir. Cyfeiriwyd at yr her o recriwtio staff gyda chymwysterau addas i alluogi darparu gwasanaeth a/neu ddysgu drwy'r Gymraeg, a hefyd at brinder therapyddion iaith a seicolegwyr addysg sydd, er yn bryder cenedlaethol, i'w weld yn waeth yng Ngwynedd oherwydd yr angen am wasanaeth dwyieithog. Ategwyd bod trafodaethau cyson gyda Llywodraeth Cymru i geisio lliniaru'r broblem.

Diolchwyd am yr adroddiad

Rhodddwyd cyfle i aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau a derbyniwyd ymatebion i'r cwestiynau hynny gan y *Swyddogion Addysg*

A fyddai modd gweithredu yn rhyngweithiol drwy geisio newid trywydd gyrfa staff dysgu, (drwy ariannu cynlluniau hyfforddi perthnasol) i fod yn seicolegwyr addysg?

Yr Adran Addysg wedi bod yn rhyngweithiol yn lleol mewn ymgais i recriwtio seicolegwyr addysg. Cynigion bwrsariaeth wedi bod yn llwyddiannus. Cynnig arall yw ceisio ennyn diddordeb drwy ddarpariaeth ôl 16 gan dargedu agweddau o brentisiaethau yn y maes.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod canran defnydd o'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn y cyfnod sylfaen yng Ngwynedd yn uwch nag unrhyw sir arall yng Nghymru, ond bod cwmp i'w weld ar ddiwedd bl 9. Holwyd a yw'r cwmp yn un cyffredinol ar draws y Sir neu a yw'n benodol i rai lleoliadau yn unig?

Ymddengys pan fydd disgyblion yn dewis eu pynciau TGAU a llwybr gyrfa ar ddiwedd BI9 bod nifer helaeth yn dewis pynciau drwy'r Saesneg. Er nad oedd tystiolaeth i roi sylwedd i'r farn, bod y sefyllfa er hynny yn bodoli. Nodwyd bod ysgolion, gyda chefnogaeth yr Adran Addysg, yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn annog disgyblion i barhau gydag addysg Gymraeg. Nodwyd bod yr Adran Addysg yn cydweithio gyda Chanolfan Bedwyr ym Mangor i geisio sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau digidol Cymraeg ar gael i hwyluso mynediad i athrawon a disgyblion at bynciau CA4 a CA5. Trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal gyda'r Bwrdd Arholi

A yw plant yn cael eu hasesu fel plant iaith gyntaf, ail iaith neu drwy gyfrwng eu haddysg? Pwy sydd yn dewis asesu plentyn fel siaradwr iaith gyntaf ar ddiwedd bl 9? A'i dewis yr ysgol yw hyn neu rieni?

Disgwyliad yw bod disgyblion ar lefel 3 neu uwch erbyn diwedd cyfnod cynradd yn cael eu hasesu fel disgybl iaith gyntaf ac yn cael eu holrhain a'u hasesu ar ddiwedd cyfnod

allweddol 3 yn yr un modd. Awgrymwyd bod y cwmp a nodwyd uchod efallai yn seiliedig ar y modd y mae rhai ysgolion yn dehongli'r polisi iaith - ategwyd bod y Llywodraeth wedi adolygu'r drefn dynodiad iaith o fewn ysgolion ac awgrymwyd y byddai'r drefn newydd o ddynodi iaith efallai yn arwain at gynnydd yn y ganran.

A fydd y canolfannau trochi iaith yn cynnig hyblygrwydd? Beth fydd y balans o ddysgu byw a dysgu ar lein? A fydd cyfleoedd ychwanegol ar gael ar-lein i ddisgyblion sgwrsio yn anffurfiol o ystyried mai'r elfen lafar sydd wedi dioddef yn ystod y pandemig? Sut bydd hyn yn cael ei werthu i'r rhieni?

Bydd y gwasanaeth a'r drefn newydd gyda'r fantais o allu cyrraedd at fwy o blant mewn dulliau gwahanol drwy gyfuniad o sesiynau byw a sesiynau wyneb yn wyneb. Bydd y gweithlu yn llawer mwy symudol a rhagwelir y gallu i dargedu plant gyda gwahanol alluoedd gwybyddol a'u grwpio yn well o ran eu rhinweddau a chryfderau staff. Y gyfundrefn hefyd yn edrych ar loywi iaith a gwella sgiliau penodol yn hytrach na thargedu newydd-ddyfodiaid yn unig.

Yr Adran Addysg wedi bod yn llwyddiannus iawn yn dwyn perswâd ar rieni drwy amlygu a phwysleisio manteision sgiliau dwyieithog, hunaniaith, diwylliant, cyfleoedd a manteision economaidd

Faint o athrawon Gwynedd sydd yn ddi-gymraeg? A oes cyfle iddynt fynychu'r Canolfannau Iaith? A oes rhai pynciau yn waeth na'i gilydd?

Yr Adran Addysg yn gweld amrywiaeth yng ngallu athrawon o ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cydweithio gyda Chanolfan Bedwyr a GwE i ganfod cyrsiau hyfforddi athrawon newydd gydag unedau dysgu Cymraeg i sicrhau hyder o'r dechrau

Bod y nifer o athrawon di-gymraeg sydd heb y gallu i addysgu yn y Gymraeg, yn isel iawn. Ceir eraill sydd yn dysgu'r iaith ond nid oes hyder ganddynt i'w ddefnyddio yn gyhoeddus. Nodwyd bod yr Adran yn ymdrin ag anghenion athrawon mewn rhai ysgolion penodol. Adroddwyd bod cynnydd sylweddol i'w weld mewn athrawon yn dod ymlaen yn wirfoddol i ofyn am gefnogaeth i wella sgiliau Cymraeg

Yn draddodiadol, gwelir diffyg yn y pynciau gwyddonol a Mathemateg ond eto, yr Adran yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor i geisio cynnwys yr agwedd yma fel rhan o'r cwrs

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN CEFNOGAETH CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol. Nodwyd fod y Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau'r Adran a tynnwyd sylw at rai o brif brosiectau'r Adran (Prosiect Prentisiaethau, Prosiect Enwau Llefydd Cynhenid, Hysbysebu Swyddi a Datblygiad Hunaniaith) ynghyd a'r gwaith cefndirol sydd wedi ei wneud gan y Tîm Caffael. Eglurwyd fod gwaith blaenllaw wedi ei wneud yn y maes Cydraddoldeb i ddatblygu templed asesu effaith integredig sydd yn gosod ystyriaethau ieithyddol o fewnasesiadau effaith Cydraddoldeb, a bod y datblygiad yma wedi cael ei fabwysiadu gan weddill y 5 awdurdod yng Ngogledd Cymru. Llongyfarchwyd y gwaith yma. Eglurwyd fod yr adran yn blaenoriaethu recriwtio mwy o staff dwyieithog, yn enwedig yn yr adran gyfreithiol.

Ategodd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol fod holl staff yr Adran yn gweithio drwy

gyfrwng y Gymraeg. Nododd bod yr Uned Iaith yn rhan o'r Adran ac yn dilyn penderfyniad y Cabinet, bod bwriad penodi Pen Swyddog Iaith i arwain Hunaniaith a'i ddatblygu i fod yn endid annibynnol tu hwnt i'r Cyngor i'r dyfodol.

Eglurwyd bod y Cynllun Cadw'r Budd yn Lleol wedi ei ddatblygu i gynnwys 'gwerth cymdeithasol' fel rhan o'r ystyriaethau i gontractau busnesau. O ganlyniad, nodwyd fod datblygu sgiliau Cymraeg yn cael ei gynnwys mewn contractau rhwng y Cyngor a chwmnïau allanol.

Ym maes Hysbysebu Swyddi, nodwyd fod gwaith wedi ei wneud ar y cyd gyda'r Comisiynydd Iaith i allu derbyn ffurflenni DBS yn y Gymraeg (yn hytrach nag yn uniaith Saesneg) ynghyd a gwaith cyffelyb i annog derbyn tystysgrifau uniaith Gymraeg yng Nghymru yn ogystal â derbyn tystysgrifau dwyieithog os yn cofrestru yn Lloegr.

Pwysleisiwyd fod yr holl brentisiaethau sy'n ymuno a'r Cyngor yn cytuno i fuddsoddi yn y Gymraeg.

Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r gwaith cyfieithu rhithiol sy'n cael ei wneud dros Zoom. Eglurwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio Zoom i gael y gwasanaeth cyfieithu, er mai TEAMS ydi'r adnodd ffurfiol sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i gyfathrebu yn rhithiol yn ddyddiol. Mae'r Uned Gyfieithu bellach wedi llwyddo i addasu a hyfforddi i ddarparu'r gwasanaeth ar-lein ar ZOOM.

Nodwyd fod y Cyngor wedi bod yn cyd-weithio gyda'r corff IOSH i ddefnyddio eu hadnoddau mewn sesiynau hyfforddi staff, yn benodol o fewn y maes lechyd a Diogelwch. Dywedwyd mai yn Saesneg yr oedd yr adnoddau i gyd yn cael eu derbyn yn hanesyddol, ond bod y Cyngor wedi pwysu i gael caniatad i gyfieithu'r adnoddau er mwyn sicrhau bod ein staff yn gallu cwblhau'r gwaith yn Gymraeg.

Atgoffwyd yr aelodau fod yr Adran yn parhau i rannu Tip Cymraeg y mis i'r staff gael atgoffau eu hunain o reolau gramadegol amrywiol yn y Gymraeg a bod caniatáu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn un o brif flaenoriaethau 'Cynllunio'r gweithlu'

Tynnwyd sylw at hysbyseb gan Brifysgol Bangor am fyfyrwr i gyflawni ymchwil PhD mewn defnydd y cyhoedd o wasanaethau Cymraeg mewn sefydliad cyhoeddus. Eglurwyd y bydd Cyngor Gwynedd yn cydweithio ar y prosiect ac y bydd y dystiolaeth ymchwil yn cael ei gasglu drwy'r Cyngor.

Sylwadau a godwyd o'r drafodaeth ddilynol:

- Gofynnwyd a oedd pryder fod dim digon o bwyslais i gael cymhwyster iaith Gymraeg i ddisgyblion o fewn addysg. Eglurwyd fod y Cyngor yn pwysleisio pwysigrwydd dwyieithrwydd o fewn gyrfaedd. Nodwyd fod nifer yn cael eu denu i gyfleoedd megis y prentisiaethau gan eu bod yn cael eu cynnig yn gwbl ddwyieithog. Tynnwyd sylw at y gwaith mae Hunaniaith wedi bod yn ei wneud gyda disgyblion oed 16 i 18 i nodi pwysigrwydd y Gymraeg yn y gweithle. Un o'r ffyrdd maent wedi gwneud hyn yw drwy gynnal cynhadledd flynyddol ar y cyd gyda Grŵp Llanrillo Menai a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gwadd unigolion megis Nikki Pilkington i egluro'r manteision sydd wedi dod o ganlyniad i ddefnydd o'r Gymraeg.
- Gofynnwyd am gadarnhad os bydd Hunaniaith yn gweithio yn allanol i'r Cyngor rhyw ddiwrnod. Eglurwyd nad oedd hyn yn debygol yn y tymor byr ond mai dyna'r nod a dymuniad yn y tymor hir.
- Gofynnwyd os dylid addasu hysbysebiadau swydd i leddfu poenau pobl am eu hyfedredd yn y Gymraeg. Nodwyd fod hyn yn cael sylw.
- Gofynnwyd a oedd lle i ddatblygu fforwm neu gyfarfod traws-sefydliadol i drafod

y pryder recriwtio a geir ar hyn bryd? Eglurwyd fod cynllunio gweithlu yn cael ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor, ac o ganlyniad i hyn fe fydd cyfleoedd pellach i ystyried hyn. Nodwyd fod cydweithio presennol gyda'r Coleg Cymraeg i annog cyswllt rhwng sefydliadau a gobeithir y daw trafodaethau o beth yw'r trafferthion presennol daw ar draws y sefydliadau.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN TAI AC EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Tai ac Eiddo a eglurodd yn fras bod yr Adran yn cynnwys cymysgedd o wasanaethau rheng flaen sy'n golygu ymdrin â nifer o gwsmeriaid a budd-ddeiliad sydd, yn eu tro, angen gwasanaeth dwyieithog a pharch tuag at eu dewis o iaith (tu hwnt i Gymraeg a Saesneg mewn rhai sefyllfaoedd)

Amlygwyd bod yr Adran yn rhoi blaenoriaeth i gydymffurfio gyda Pholisi Iaith y Cyngor ac yn eu gallu i gynnig gwasanaeth Cymraeg i'w defnyddwyr gwasanaeth boed yn fewnol neu yn allanol. Adroddwyd, yn ôl yr Adroddiad Chwarterol Dynodiadau Iaith ddiweddaraf bod 95% o staff yr Adran yn cyraedd neu efo sgiliau y tu hwnt i Ddynodiadau Iaith ei swyddi, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Y Cyngor o 92%.

Wrth drafod rhai o uchafbwyntiau'r Adran nodwyd mewn nifer o'r prosiectau bod yr Adran yn ceisio cadw pobl yn eu cartrefi, yn lleol a thrwy weithredu hyn yn atgyfnerthu'r Gymraeg yn y cymunedau hynny. Tynnwyd sylw hefyd at ddefnydd o'r iaith mewn Contractau Adeiladu - er mai Saesneg a ddefnyddir i gael mynediad i'r farchnad ehangach, mae cymalau yn y cytundebau yn nodi y dylai unrhyw arwyddion, byrddau gwybodaeth neu gylchlythyrau fod yn ddwyieithog ac na chaniateir arwyddion uniaith Saesneg. Petai ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o brosiect, eglurwyd y byddai disgwyl i'r contractwyr ei gynnal yn y Gymraeg / dwyieithog neu os nad yw hynny'n bosib, darparu cynrychiolwyr sydd yn siarad Cymraeg neu gyfieithydd. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i dendrau gwerth uchel ddarparu Ymateb Buddion Cymdeithasol.

Nodwyd bod staff wedi mynychu cyrsiau gloymi iaith gyda mwy wedi eu trefnu i'r dyfodol a bod bwriad datblygu rhagor o hyfforddiant penodol yn y Gymraeg yn y maes Tai (rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn digwydd yn y Saesneg). Er nad yw hynny yn rhwystro nac yn atal eu gallu i weithredu, y brif nod yw cyflwyno'r hyfforddiant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Diolchwyd am yr adroddiad

Rhoddyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

A oes bwriad gan yr Adran Tai i adeiladu tai cymunedol eu hunain neu brynu stoc tai teras mewn ardaloedd trefol er mwyn eu tynnu oddi ar y farchnad /sefyllfa tai rhent preifat sydd yn arwain at ddefnydd Air B&B neu dai amlbreswyliaeth?

Yr Adran yn canolbwyntio ar dai marchnad agored a thai gwag, ond erbyn hyn yn edrych i brynu tai teras at ddefnydd pobl leol. Er bod bwriad prynu tai, y farchnad dai ar hyn o bryd yn 'boeth' a'r Adran wedi gorfod gosod mesurau yn eu lle i ymateb yn gyflym i'r farchnad. Ategwyd bod diddordeb wedi ei amlygu mewn nifer o dai ar werth, gydag un wedi ei brynu hyd yma.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

8. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: CYNLLUN TAI CYMUNEDAU CYMRAEG

Cyflwynwyd dogfennau gan yr Ymgynghorydd Iaith ynghylch ymgynghoriad Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru er gwybodaeth. Eglurwyd bod yr ymgynghoriad cynnig camau i geisio mynd i'r afael â'r sefyllfa dai presennol ac yn deillio o ganfyddiadau adroddiad Simon Brookes yn 2021. Nodwyd bod cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau fyddai'n cael eu hychwanegu at ymateb yr Uned Iaith i'r Ymgynghoriad.

Amlygwyd pryderon,

- bod yr ymgynghoriad ar effaith y pandemig ar grwpiau cymunedol cyfrwng Cymraeg, y cyfeiriri ato yn yr ymgynghoriad, wedi ei gynnal yn ystod y pandemig, ac felly ystyriwyd nad oedd gwir effeithiau wedi dod i'r amlwg eto. Cynigwyd bod angen ymgynghoriad mwy diweddar i roi darlun cyflawn.
- bod llawer o bwysau ar fentrau cymunedol sydd yn ddibynnol ar wirfoddolwyr gan eu bod yn bwynt cyswllt i nifer o bobl yn y gymuned.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Holwyd a oedd data am oroesiad grwpiau cymunedol/mentrau cymunedol yn ystod y cyfnod COVID. Nodwyd nad oedd cofnod penodol o ddata gan y tîm iaith.
- Croesawyd yr ymgynghoriad, ond mynegwyd pryder am y pwysau a disgwyliadau cynyddol sydd yn cael eu rhoi ar fentrau cymdeithasol a bod angen cefnogaeth gydweithredol yn benodol i'r mentrau cymunedol llai sefydledig gan fod pryder i'r rhain gael eu hanghofio.
- Pwysleisiwyd fod angen gallu profi yr angen lleol, ac mai mentrau lleol sydd yn aml yn gallu adnabod yr angen hwnw orau. Tynnwyd sylw at arferion da o ranberchnogaeth yn ardal Llanuwchllyn a nodwyd bod angen cydweithio efo mentrau cymdeithasol i ganfod yr angen gwirioneddol am dai. Nodwyd yr angen i gael eglurhad pellach gan y Llywodraeth am eu bwriadau yng nghyd-destun y strategolaeth i gyraedd miliwn o siaradwyr, a sut y maent yn bwriadu creu swyddiHolwyd ymhellach os oedd cynnal swyddi mewn cymunedau Cymraeg yn rhan o'r cynlluniau hyn.
- Awgrymwyd hefyd bod angen gallu gweithredu ar unwaith yn dilyn argymhellion yr ymgynghoriad hwn a'r ymgynghoriad diweddar ar faterion Cynllunio, yn hytrach na grofod aros tan cyhoeddi y CDLI nesaf.
- Mynegwyd pryder y gallai'r Llywodraeth fod yn araf yn prosesu'r polisiâu ai drosi tŷ cyffredin i dŷ gwyliau a bod angen i hyn gael ei ddatrys cyn gynted â phosibl
- Holwyd os oedd modd ychwanegu ymwybyddiaeth iaith mewn addysg yn rhan o'r adran 'cwestiwn cyfraniad cyffredinol' gan fynegi fod hyn yn ystyriaeth fawr o fewn y cymunedau Cymreig.
- Nodwyd y dylai'r Comisiwn a'r Llywodraeth arwain drwy esiampl a chael gweddill yr awdurdodau yng Nghymru i gael y Gymraeg fel eu prif iaith weinyddol fewnol.
- Nodwyd ei bod yn hollbwysig bod y sylfeini cywir yn cael eu gosod ar gyfer y Gwaith peilot yn Llyn, ac y dylai pobl leol a chynghorwyr gyfranogi a bod yn rhan o'r broses er mwyn sicrhau atebolrwydd lleol, gan ei fod yn hanfodol ccael y llais lleol er mwyn cael gwir ddealltwriaeth o'r sefyllfa.
- Eglurwyd fod angen sicrhau fod yr angen lleol yn cael ei danlinellu yn y datblygiad o'r tai rhent sy'n cael eu datblygu. Nodwyd fod gorddatblygiad mewn ardaloedd heb yr angen yr un mor ddiffygiol i'r iaith a than-ddatblygiad

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad gan ofyn i'r Uned Iaith ddefnyddio y sylwadau a dderbyniwyd gan yr Aelodau wrth lunio ymateb i'r ymgynghoriad.

9. ADRODDIAD YMCHWIL TAI NEWYDD YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd canlyniadau'r ymchwiliad gan Reolwr Ymchwil a Gwybodaeth. Adroddwyd bod yr ymchwil yn waith a gomisiynwyd gan Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn 2018 i gasglu tystiolaeth am y maes fel bod gwybodaeth wrth gefn ar gyfer gwahanol swyddogaethau Cyngor ym meysydd tai, cynllunio, yr Iaith Gymraeg, ayyb.

Ymwelwyd â phob tŷ oedd wedi eu hadeiladu o'r newydd yng Ngwynedd o fewn cyfnod penodol, gan holi pwy oedd yn byw yno, o ble roeddent wedi symud a'u rhesymau dros ddewis tŷ newydd yn yr ardal. Holwyd hefyd lle roeddent yn byw o'r blaen ermwyn casglu gan gasglu tystiolaeth o'r gadwyn tai cyn symud i dŷ newydd. Nodwyd bod dau fersiwn o'r canlyniadau - fersiwn gryno a fersiwn lawn yn manylu ar y canfyddiadau. Eglurwyd mai y bwriad oedd cyflwyno'r wybodaeth fel rhan o ddogwyddiad torfol ar faterion tai yn ystod 2020, ond yn sgil covid, nad oedd digwyddiad o'r fath wedi bod yn ymarferol. Ategwyd, gyda marchnad dai lleol wedi ei thrawsnewid yn ystod y cyfnod covid, bod casgliadau'r ymchwiliad wedi dyddio ynghynt na'r disgwyl.

Amlygwyd bod holl aelodau etholedig y Cyngor wedi cael cyfle i glywed y cyflwyniad am y gwaith mewn sesiwn biffio ym mis Rhagfyr 2021.

Trafodwyd rhai o'r prif ganfyddiadau gan ymhelaethu ar casgliadu'r ymchwiliad i faterion iaith

- Bod y cyfran o breswylwyr y tai newydd oedd yn siarad Cymraeg (sef 68%) yn debyg iawn i'r cyfran ymysg poblogaeth Gwynedd yn gyffredinol yn y Cyfrifiad diwethaf (sef 65%).
- Bod patrwm fesul grŵp oedran yn dangos fod preswylwyr ieuengach tai newydd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na rhai hŷn, gyda 91% o blant 3 – 11 oed a 68% o bobl 25-44 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r cyfran isaf (sef 47%) ymhlith y grŵp oedran 65 – 84 oed.
- Bod preswylwyr tai newydd mewn datblygiadau "bychan" (4 tŷ neu lai) ychydig yn fwy tebygol o fod yn gallu siarad Cymraeg na phreswylwyr datblygiadau mwy (74% o'i gymharu â 66%). Hefyd roedd cyfran fymryn uwch o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â phreswylwyr tai newydd eraill (74% o'i gymharu â 68%).

Diolchwyd am yr adroddiad

Rhoddyd cyfle i aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau a derbyniwyd ymatebion i'r cwestiynau hynny gan y *Swyddogion*

Pryd fydd canfyddiadau Cyfrifiad 2021 yn cael eu cyhoeddi?

Rhai canlyniadau i'w cyhoeddi yn ystod Mai /Mehafin ac yna mewn camau hyd ddiwedd Hydref 2022. Ategwyd nad oedd amserlen bendant wedi ei chyhoeddi

Llongyfarchwyd yr Adran ar gwblhau ymchwil diddorol iawn. A oes angen trydydd opsiwn wrth holi beth yw prif iaith y cartref? Gofynnwyd a oedd y canfyddiad yn amlygu'r duedd gyffredinol?

Derbyn bod angen ystyried cwestiwn ychwanegol, ond yr holiadur yn dilyn patrwm cyfrifiad er mwyn cysondeb. Yr holiadur yn gofyn am brif iaith y cartref, ond wrth gynnal

sgwrs roedd mwy o wybodaeth yn cael ei gynnig. Yr ymchwil yn atgyfnerthu'r farn gyffredinol.

Nodwyd bod cais am y wybodaeth yma wedi ei wneud ers tro yn sgil pryderon am effaith y Cynllun Datblygu Lleol. Croesawu'r wybodaeth bwysig yma ar gyfer materion cynllunio. A oes bwriad diweddarau'r wybodaeth ac ail edrych ar y sefyllfa? Awgrym y gellid monitro tai newydd sydd yn cael eu hadeiladu yn sgil y Cynllun Datblygu Lleol. Sylfaen wedi ei osod yma – cynnig mai amserol fyddai diweddarau'r wybodaeth

Nodwyd mai tai newydd yn unig oedd yn cael eu hystyried yn yr ymchwil yma ac amlygwyd bod diddordeb gan nifer o adrannau yn yr ymchwil ac felly bod nifer o ofynion wedi bod ar y gwaith. Nodwyd bod sgysiau anffurfiol Sgwrs wedi ei chynnal gyda'r Adran Cynllunio, yr Uned Iaith a'r Adran Tai ac nad oedd bwriad ar hyn o bryd i gynnal ymchwiliad yn dilyn yr un patrwm – gan fod posibilrwydd cael y wybodaeth o ffynhonnellau eraill. .

A fyddai modd cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau?

Cyflwyniad wedi ei wneud i holl aelodau etholedig y Cyngor ar y 14eg o Ragfyr 2021 – awgrymwyd ail rannu'r dogfennau ac ystyried y ffordd orau ymlaen

Bod y gwaith yn ysgogi trafodaeth - yn ddarn o waith pwysig sydd angen ei ddiweddarau a'i gadw yn fyw.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau**
- **Cyfeirio cais gan aelodau'r Pwyllgor at yr Aelod Cabinet perthnasol i ystyried diweddarau'r wybodaeth yn y dyfodol**

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 3:40pm

CADEIRYDD

Eitem 5

<u>CYFARFOD</u>	Pwyllgor Iaith
<u>DYDDIAD</u>	7 Ebrill 2022
<u>TEITL</u>	Cynllun Hybu'r Gymraeg - Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol
<u>PWRPAS</u>	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad y Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
<u>AWDUR</u>	Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr Morwena Edwards – Cyfarwyddwr Corfforaethol Iwan Evans - Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

1. CEFNDIR

1.1. Paratowyd yr adroddiad hwn er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'r Pwyllgor Iaith am sut mae'r Tîm Arweinyddiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol yn hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

1.2. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn cyflogi 6 o staff gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'u tîm gweithredol ac mae 23 aelod staff yn y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Yn ei rôl mae'r Prif Weithredwr, gyda chymorth y Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn gyfrifol am arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol gweithlu'r Cyngor.

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ar draws holl ystod waith y Cyngor; yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i weithredu eu cyfrifoldebau priodoldeb; cefnogaeth i'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Etholiadol a chefnogaeth i wasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.

1.3. O fewn y Tîm Arweinyddiaeth a'r Gwasanaethau Cyfreithiol, gellir cadarnhau bod pob aelod o staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi.

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	<i>Cwestiwn</i>
<u>Hybu a hyrwyddo</u> Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn	<i>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</i> i) Gyda chefnogaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, mae'r Adran wedi arwain ar yr ymgais i gael gwyliau ychwanegol i staff

<p>ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p>	<p>ar ddydd Gŵyl Ddewi, er mwyn hyrwyddo a dathlu ein Cymreictod. Rydym yn falch iawn o fod wedi gallu cynnig diwrnod ychwanegol o wyliau i staff ar Fawrth y 1af eleni, a bydd gwaith pellach i'w wneud dros y flwyddyn nesaf i asesu opsiynau i'w cyflwyno i'r dyfodol.</p> <p>ii) Mae'r Tîm Arweinyddiaeth hefyd wedi bod yn gyrru ymgais i'r holl staff fod yn dewis gosod Microsoft cyfrwng Cymraeg ar eu dyfeisiadau, ac rydym wedi comisiynu'r Uned TG i gyflwyno Microsoft yn y Gymraeg ar ein holl ddyfeisiadau o hyn allan.</p> <p>iii) Mae gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol rôl arweiniol yn genedlaethol ac yn rhanbarthol am Mwy na Geiriau, sef strategaeth ar gyfer cryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y sector gofal ac iechyd. Golyga hyn gadeirio Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru, sydd yn Fforwm traws-sector. Mae'r Fforwm yn atebol i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Rhanbarthol ac mae'r Cyfarwyddwr, fel cadeirydd y Fforwm, yn adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth o leiaf yn flynyddol, gan gyflwyno adroddiad blynyddol ar waith y Fforwm i aelodau'r Bwrdd.</p> <p>iv) O ran y gyfrifoldeb cenedlaethol, mae'r Cyfarwyddwr yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gyfan ar y Bwrdd Partneriaeth Iaith Gymraeg, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru. Yn fwy diweddar mae wedi dod yn aelod o Grŵp Tasg a Gorffen Mwy na Geiriau Cenedlaethol Cymru, sydd wedi'i sefydlu gan y Gweinidog Iechyd a Gofal, Eluned Morgan, a arweinir gan Marian Wyn Jones.</p> <p>v) Ym mis Rhagfyr 2021 sefydlwyd Grŵp Mwy na Geiriau Gwynedd, dan arweiniad a chadeiryddiaeth Uwch Swyddog Gweithredol y Cyfarwyddwr, sy'n golygu bod gwaith manwl yn digwydd i edrych ar sut yr ydym ni'n gweithredu strategaeth Mwy na Geiriau yn y sir. Drwy'r grŵp, mae gwaith ar y gweill i sefydlu Rhaglen Waith a Chofnod o Arferion Da.</p> <p>vi) Mae gan Wynedd rôl arweiniol mewn sawl partneriaeth rhanbarthol. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi bod â rhan ganolog yn sefydlu trefniadau llywodraethu y partneriaethau yma, er enghraifft y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer rhanbarth y Gogledd. Prif Weithredwr y Cyngor sydd wedi ei benodi'n Brif Weithredwr dros dro y CBC ac mae hyn yn atgyfnerthu'n gallu i sicrhau fod y Gymraeg yn ganolog i ethos y sefydliad hwn. Yn amlwg mae sawl dynamig ar waith ynglŷn â sicrhau fod trefniadau'r cyrff yma yn gweithredu'n ddwyieithog. Ond, mae'r mewnbwn yma yn golygu fod y trefniadau, gan gynnwys y ddogfennaeth llywodraethu ac ati, yn cael ei baratoi a'i ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae gallu Gwynedd i gyflawni materion technegol ac arbenigol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn golygu ein bod yn gallu rhoi sicrwydd a</p>
--	--

	<p>hyder wrth gyflawni'r amcanion yma. Mae hyn bellach yn egwyddor sydd wedi ei sefydlu yn eglur yn ein gwaith partneriaeth ac yn dod yn lled arferol.</p> <p>vii) Er bod cyflawni gwasanaeth Crwner yn fater sydd yn nwylo deilydd y swyddogaeth mae sawl agwedd i hyn sydd yn perthnasu ei hun i rôl y Gwasanaeth Cyfreithiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan mai Gwynedd sydd yn penodi y Crwner a Chrwneriaid Cynorthwyol mae gennym ddylanwad sylweddol ar y gofynion ar gyfer y swydd. Golygai hyn ein bod wedi medru sicrhau fod y sawl sydd yn cael eu penodi i'r swyddogaethau gan y Cyngor yn meddu ar y gallu i gyflawni eu dyletswyddau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn wedi ei gydnabod gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Prif Grwner sydd â throsolwg o'r trefniadau. • Yn dilyn ymddeoliad yr Uwch Grwner roedd rhagdybiaeth y byddai ardal Gogledd Orllewin Cymru yn cael ei huno ag ardal Canol a Dwyrain Gogledd Cymru i greu un ardal. Bellach ni fydd hyn yn digwydd sydd yn golygu fod modd sicrhau lle i'r Gymraeg yn y gyfundrefn, a hynny ar sail sefydlog tymor hir. Roedd y gallu i gynnal darpariaeth ddwyieithog oedd eisoes yn bodoli yn ystyriaeth allweddol i gadw'r ardal fel ag y mae. <p>viii) Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ac wedi cael y cyfle i hyrwyddo a chefnogi cynllun sy'n edrych ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn "nrysau blaen" sefydliadau cyhoeddus eraill Gwynedd. Mae hwn yn un o brif brosiectau'r Bwrdd ar hyn o bryd ac mae cyfle i sicrhau fod sefydliadau eraill yn elwa o brofiad a llwyddiant Gwynedd yn y maes yma.</p> <p>ix) Mae natur swyddi'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn golygu eu bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd aml asiantaethol, ar lefel cenedlaethol yn aml iawn. Mae'n anffodus fod rhai sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn parhau i gynnal cyfarfodydd o'r fath drwy gyfrwng y Saesneg yn llawr rhy aml. Mae'n hanfodol bwysig felly, fel cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd, ein bod yn mynnu'r hawl i gyfrannu drwy'r Gymraeg ar bob cyfle.</p> <p>x) Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb am sicrhau fod ein uchelgais o ran hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei arddel ym mhob un o Adrannau'r Cyngor. Mae'n rôl sy'n gofyn am gefnogi adrannau ar adegau a thro arall yn gofyn am herio mewn modd adeiladol.</p>

<p><u>Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u></p> <p>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?</p>	<p>2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Pan fyddwn yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, rydym yn gwneud ein gorau i gyflogi siaradwyr Cymraeg. Pan nad yw hynny'n bosib, rydym yn sicrhau bod cyfieithydd ar y pryd ar gael i unrhyw gyfarfodydd a gynhelir gyda chontractwyr allanol fel bod pawb yn cael y cyfle i siarad yr iaith o'u dewis wrth drin a thrafod y gwaith dan sylw. Bydd unrhyw waith a gyhoeddir gan gontractwyr allanol ar gael yn ddwyieithog hefyd. ii. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn comisiynu defnydd o locums a chyfreithwyr allanol er cyfarch gofynion am gapasiti neu arbenigol uwch. Mae'n rhaid cydnabod ei bod yn heriol sicrhau darpariaeth o'r fath sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag ar bob achlysur lle mae hyn yn bosib byddwn yn blaenoriaethu defnyddio unigolion sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. iii. Yr agwedd arall yw'r angen i gyflogi cyfreithwyr arbenigol lefel uchel sydd yn meddu ar y gallu i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle'n bosib rydym yn cyfarwyddo cyfreithwyr a bargyfreithwyr sydd yn meddu â'r sgiliau iaith. Mewn rhai achlysuron mae modd sicrhau gwasanaeth ar y lefel uchaf i roi cyngor neu farn drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag ar faterion sydd un ai angen tîm ehangach, arbenigedd penodol neu faint prosiect mae sicrhau'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyr yn anodd, os nad yn anymarferol. Mae'r gallu i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei nodi ar gytundebau fframwaith cenedlaethol ond, nid yw hwn yn ddarpariaeth gyffredinol ar draws y cwmnïau. Adlewyrchir hyn yn helaeth hyd yn oed o fewn cwmnïau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru.
<p><u>Gweithredu'n ddwyieithog</u></p> <p>Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg?</p>	<p>3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Mae gofyn i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr gydweithio'n agos gyda sefydliadau allanol. ii. Mae'r Cyfarwyddwr, er enghraifft, yn cydweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd, ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyfarfodydd rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg. Mae tueddiad gan y Bwrdd Iechyd i droi

	<p>i'r Saesneg os oes unrhyw un yn y cyfarfod yn methu deall Cymraeg, yn hytrach na sicrhau cyfieithydd ar y pryd ymlaen llaw. Mae'r Cyfarwyddwr, drwy gydweithio gyda Chyfarwyddwr Ardal y Bwrdd Iechyd wedi gallu sicrhau bod mwyafrif helaeth o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg.</p> <p>iii. Mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn Aelod Cyswllt o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - rôl sydd yn golygu bod y Cyfarwyddwr yn rhan o drefniadau ffurfiol y Bwrdd. Er bod y Bwrdd Iechyd ar y blaen gyda materion ieithyddol o'i gymharu â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydliad eithaf Seisnigaidd ei natur mewn cymhariaeth â'r Cyngor. Mae'r Cyfarwyddwr yn cymryd mantais o'i dylanwad fel siaradwr Cymraeg i annog defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd a gweithdai, gan gyfrannu'n Gymraeg ar bob achlysur a sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael bob amser. Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu sicrhau bod adroddiadau sydd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod ffurfiol y Bwrdd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae hyn yn gam mawr ymlaen i sicrhau trefniadau dwyieithog.</p> <p>iv. Mae ADSS Cymru, sef corff proffesiynol sydd yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Gymru, wrthi'n dylunio Cynllun Gwaith ar yr Iaith Gymraeg o fewn y sefydliad er mwyn gweithredu'n genedlaethol, a hynny o ganlyniad i ddylanwad Morwena Edwards a Chyfarwyddwr Ynys Môn. Bydd hwn yn gam cadarnhaol ymlaen i weithredu strategaeth Mwy na Geiriau yn ogystal â sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cymryd lle naturiol yng ngwaith bob dydd y sefydliad a thu hwnt. Fel rhan o'r rôl arweiniol gyda'r Iaith Gymraeg, bu i Morwena, ar y cyd gyda Marian Parry Hughes, ddylanwadu ar frandio Maethu Cymru, er mwyn sicrhau bod y dylunio a chynnwys y gwaith marchnata yn cwrdd â'r gofynion ieithyddol yn llawn.</p> <p>v. Fel Gwasanaeth Cyfreithiol rydym wedi gweithio i leihau allanoli y gwaith. Yn gyffredinol rydym wedi bod yn dra llwyddiannus yn gwneud hyn. Fodd bynnag mae problemau recriwtio dros y 12 mis diwethaf yn golygu ein bod wedi dibynnu ar gyflogi mwy o gyfreithwyr locums na fyddai wedi bod mewn sefyllfa arferol. Rhaid cydnabod er yn ceisio darganfod darpariaeth Gymraeg bob tro, eithriad yw llwyddo i wneud hyn. Rydym yn cymryd camau sylweddol i geisio recriwtio staff sydd â'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol a dyma fydd y cyfrwng i gyfarch y sefyllfa yma.</p> <p>vi. Fodd bynnag mae'n bwysig cydnabod fod Gwasanaeth Cyfreithiol Gwynedd yn unigryw bron ymhlith y 22 Awdurdod,</p>
--	---

	<p>gan feddu ar dîm lle gallai'r holl staff ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn parhau ac nid yw'r materion a nodir wedi newid diwylliant na natur y Gwasanaeth.</p>
<p><u>Datblygu cyfleoedd newydd</u></p>	<p><i>4.Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?</i></p> <p>Mae lle i adlewyrchu ar y gwasanaeth a'r adnoddau ieithyddol sydd o fewn y Gwasanaeth Cyfreithiol megis dogfennau technegol sydd wedi eu creu gennym. Gall hwn fod yn adnodd i'w rannu yn allanol dan amodau priodol petai adnoddau yn caniatáu.</p> <p>Yn ddiweddar, mae'r Prif Weithredwr wedi cychwyn darn o waith i asesu os oes modd defnyddio 'Cyngor Gwynedd' fel enw swyddogol y Cyngor drwy hepgor defnydd y fersiwn Saesneg statudol ('Cyngor Gwynedd Council'). Bydd manylion pellach yn cael eu rhannu wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.</p> <p>Mae'r gwaith sydd ar y gweill i newid enw'r Cyngor yn gyfle i ni atgoffa sefydliadau eraill lleol fod Cyngor Gwynedd yn cymryd ei gyfrifoldeb ieithyddol o ddifrif a'n bod yn cofleidio pob cam bychan i hybu statws a defnydd y Gymraeg yn ein sir. Bydd cynllun Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn gyfle arall i ni ddylanwadu ar eraill er mwyn cyfrannu ymhellach tuag at ddefnydd dyddiol y Gymraeg yn y sector gyhoeddus yng Ngwynedd.</p>



**7 Ebrill 2022 -
PWYLLGOR IAITH**

**Defnydd o'r Iaith
Gymraeg yn YGC**



Cyflwyniad

Defnydd o'r Iaith Gymraeg yn YGC

Dros y 6 mlynedd ddiwethaf mha' mae hi wedi bod yn sialens ac yn bleser i mi, â rheolwyr yr adran, gymryd camau ychwanegol i hybu'r iaith Gymraeg a sicrhau ein bod yn cyfrannu tuag at weithredu Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018 - 2023.

Mae sawl prosiect gennym sy'n rhoi sylw i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn bennaf yn y maes blaenoriaeth iaith gwaith a gwasanaeth. Rydym hefyd wedi rhoi sylw i'r maes gwaith dysgu drwy ein cydweithio gyda Sefydliad Siartredig Peirianwyr er mwyn sicrhau bod modd i dechnegwyr ifanc wneud cymhwyster cydnabyddedig yn y maes drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Adran yn cydweithio yn allanol ar gytundeb gyda Chyrff a Chontractwyr sydd ddim bob amser yn gweithredu'n ddwy ieithog, gwneir ymdrech i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, a'u 'hannog nhw i wneud defnydd ohoni.

Gan fod YGC yn gweithio mewn maes sydd yn cael ei ystyried yn ddiwydiant "Saesnig" ei natur mae yna nifer o rwystrau wedi ein croesi i beidio gallu cynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg, yn bennaf oherwydd y cydweithio gyda chyrff ag asiantaethau allanol fel NMWTRA, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chontractau peirianyddol safonol cenedlaethol, sydd ddim yn gweithredu yn ddwyieithog.

Mae problem recriwtio/ddiffyg sgiliau staff gyda sgiliau ieithyddol uchel wedi bod yn fater problemus i'r Adran ac mae'r sefyllfa yma yn parhau.

Rydym yn parhau i weithio yn ddwy ieithog gyda Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan ddechrau pob sgwrs yn y Gymraeg.

Mae'r Adran wedi gweithio ar nifer o brosiectau ac wedi hyfforddi staff yn y Gymraeg. Gweler y manylion llawn am y prosiectau islaw.

Prosiect Dynodiadau Iaith

- Bu i Ymgynghoriaeth Gwynedd fod yn rhan o'r Peilot dechreuol i'r Prosiect Dynodiadau Iaith.
- Bu i ni gydweithio yn agos gyda Siôn Elwyn Hughes a Llio Mai Hughes, Swyddogion Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg, ar gasglu hunanasesiadau unigolion a darparu hyfforddiant er mwyn cefnogi'r staff nad oeddynt yn

cyrraedd y gofynion iaith. Erbyn hyn mae staff yr Adran gyfan (100%) wedi cwblhau'r holiadur hunan asesu.

- Bu i ni gynnal 115 o asesiadau staff cyfredol, ac roedd hyn yn cynnwys staff parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol.
- Bu i'r gwaith ymchwil yma fod yn llwyddiant i'r adran gyda 92% yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd.
- Erbyn hyn mae'r gwaith yn digwydd yn naturiol ar y cyd rhwng Llio Mai Hughes a Thîm Rheoli YGC.
- Mae nifer o staff YGC hefyd wedi cwblhau holiadur hunanasesu fel mater o drefn yn nyddiau cynnar eu swydd. Golygai hyn bod cyfradd o'r asesiadau'n gyson uchel. Trwy hyn, gallwn adnabod y staff sydd angen cefnogaeth yn gynnar, a chynnig hyfforddiant iddynt yn syth.

Cynllun Cyfeillion

- Mae'r Cynllun Cyfeillion wedi'i sefydlu i gefnogi un o amcanion y prosiect hwn, sef helpu staff y Cyngor i gyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi.
- Diben y cynllun yw rhoi cyfle i staff sydd ar ganol derbyn hyfforddiant, neu newydd orffen, i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol a gofyn am help mewn sefyllfa gyfforddus.
- Ar hyn o bryd mae 3 aelod o staff YGC yn rhan o'r Cynllun.
- Yr enghraifft ddiweddar yw Molly sydd wedi ymuno â YGC yn ystod y cyfnod clô ym Mawrth 2020, ac wedi ymuno gyda'r Cynllun Cyfeillion. Mae Molly wedi cael ei phartneru gydag Owain Griffith. Mae'r Cynllun hwn yn galluogi i Molly gynnal sgysiau yn y Gymraeg gyda'i chyd-weithiwr, a hefyd bod yn ymwybodol bod ganddi "glust i wrando arni". Mae cefnogaeth Owain, yn ymddangos bod y trefniant hwn yn gweithio'n effeithiol iawn.
- Mae Molly wedi mynychu'r cwrs "Defnyddio' Cymraeg Gwaith ar lefel Canolradd hefyd.

Gwersi Cymraeg

- ❖ Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu ar y cyd gyda Llio Mai Hughes a ninnau, ble byddem yn adolygu'r cyrsiau sydd yn cael eu cynnig, a hefyd yn adolygu'r Staff sydd gennym ar wahanol gyrsiau yn barod.

- ❖ Yn ystod y cyfnod clô, mae'r gwersi Cymraeg wedi parhau gennym, gyda staff yn derbyn eu gwersi drwy wahanol ffyrdd er enghraifft :
- ❖ Mae Abigail Caulfield yn dilyn cwrs cymunedol lefel Sylfaen ar hyn o bryd hyd at Fehefin 2022, ac fe wnaeth hefyd fynychu cwrs "Defnyddio' Cymraeg Gwaith" ar lefel Canolradd fis Tachwedd 2021. Ar ôl cwblhau'r cwrs lefel Mynediad llynedd, fe wnaeth Abigail basio arholiad lefel Mynediad dros yr Hâf.
- ❖ Telor Williams wedi mynychu'r cwrs Gloywi iaith yn Nant Gwrtheyrn, Llithfaen.
- ❖ Bob Humphreys yn enghraifft dda iawn sydd wedi mynd ati i ddilyn cyrsiau cyson yn y Gymraeg. Penderfynodd Bob i gwblhau Cyrsiau Cymraeg drwy ddilyn llwybr - Dysgu Cymraeg drwy Brifysgol Bangor. Bu iddo ddechrau drwy ddilyn cwrs "Stori a Sgwrs" lle'r oedd yn darllen nofelau Cymraeg ac yna yn eu hadolygu, ac yna'r ail gwrs yn cael ei gynnal ar ffurf darlith, ble roedd yn dysgu am ddiwylliant Cymru. Mae Bob wedi mwynhau'r dysgu, ac wedi bod yn hynod o lwyddiannus. Dilynodd Bob Humphreys gwrs ar lefel Gloywi hyd at Ebrill 2020. Bellach mae o wedi cyrraedd dynodiadau iaith y swydd yn dilyn ei hyfforddiant.
- ❖ Bu i Siôn Arwel Jones fynychu'r cwrs 'Defnyddio' ar lefel Gloywi Ysgrifennu nôl ym mis Tachwedd 2021.

Cynllun "Arfer" drwy'r Brifysgol.

Bu i'r Gwasanaeth Dwr ac Amgylchedd gytuno i gydweithio ar y Cynllun Arfer drwy'r Brifysgol ym Mangor. Bwriad y Prosiect hwn oedd newid arferion iaith i alluogi cydweithwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi sefydlu arferiad o ddefnyddio Saesneg) i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

Roedd Arwel Tomos Williams yn Ymchwilydd o'r Brifysgol, ac yn gweithio ar y Cynllun hwn. Mae wedi mynychu'r Swyddfa "Dwr ac Amgylchedd" yn wythnosol, ac yn eistedd hefo'r staff. Mae ei neges o newid iaith yn y gweithle a newid diwydiant yn yr Adran yn gweithio. Bu i'r cynllun yma fod yn hynod o lwyddiannus gan bellach maent yn cynnal eu sgysiau yn y Swyddfa drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd yn ymateb i alwadau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae 14 aelod o staff yn yr Uned Amgylchedd, gyda 8 aelod yn Gymraeg iaith gyntaf, a'r 6 arall wedi dysgu'r Gymraeg o'r dechrau. Mae hyn yn enghraifft dda iawn o safbwynt dysgu a datblygu.

Gwobr Dafydd Orwig

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae 5 aelod o staff YGC wedi curo Gwobr Goffa Dafydd Orwig sef :

- Alex Jones
- Nancy Wilkinson
- Jon Chapman
- Owen Angus Duncan
- Nia Jane Owen-Midwood

Bu i'r gwobrau yma gael ei 'hennill ar sail dysgu'r iaith Gymraeg neu hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle.

Cymwysterau proffesiynol Eng Tech

Gan fod rhan fawr o wasanaethau YGC yn y maes Peirianeg Sifil, rydym yn cydweithio agos gyda'r "Institution of Civil Engineers" (ICE), ac mae perthynas glos hefo hwy.

Mae llawer iawn o'n Technegwyr ifanc ni yn gweithio tuag at gael cymhwyster proffesiynol a elwir yn "Eng Tech". Mae'r cymhwyster yma yn lefel o gofrestrriad proffesiynol a gydnabyddir yn fyd eang ar gyfer Technegwyr Peirianeg. Maen gydnabyddiaeth ffurfiol o sgiliau a chymhwysedd peirianeg, ac yn gam pwysig tuag at ddod yn beiriannydd corfforedig neu'n beiriannydd siartredig.

Yn 2014, bu i ni ffurfioli'r drefn gyda'r ICE i allu cynnal y cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd cael cyflwyno'r gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg. Bu i hyn fod yn help i'r unigolion rheini oedd yn fwy hyderus yn y Gymraeg. Hefyd newidiwyd y drefn o drefnu'r cyfweliad proffesiynol yma yng Nghymru, a'u cynnal yn y Galeri yng Nghaernarfon, hyn yn galluogi i'r staff aros yn lleol, ac osgoi teithio i fannau fel Manceinion/Llundain. Roedd Gwynfor Hedd Roberts sy'n Uwch Beiriannydd Prosiect gyda YGC yn un o'r rhai cyntaf i ddilyn y drefn yma.

Fforwm Iaith

Yn ystod 2021 mae'r Adran Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg wedi sefydlu "Fforwm Iaith", ac mae cynrychiolydd o bob Adran ar draws y Cyngor yn mynychu'r Fforwm yma. Cynrychiolydd YGC yw Nia Jane Owen-Midwood. Bydd Nia yn cyflwyno cyflwyniad i'r Fforwm yn ystod mis Mehefin. (Copi o'r cyflwyniad ynghlwm)

Buddsoddwyr Mewn Pobl

- Yn ddiweddar rydym wedi llwyddo i gael achrediad safonol – “Buddsoddwyr Mewn Pobl”.
- Roedd y broses yma yn cael ei chydgordio gan Fenter Môn a YGC - drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cafodd yr holiaduron staff eu cylchredeg yn ddwy ieithog.
- Cynhaliwyd y cyfweiliadau â'r cyfarfodydd yn y Gymraeg.
- Bydd yr Adroddiad terfynol hefyd yn ddwy ieithog.

Rhannu Arfer Da

- Rydym yn gosod newyddion yn rheolaidd ar Sharepoint.
- Cylchredeg e-byst i Staff yn y Gymraeg.
- Mae gan yr Adran Fwletin Staff sydd yn cael ei gylchredeg bob dau fis, yn y Gymraeg.
- Mae'r Pennaeth yn cynnal cyfarfodydd gyda phob Uned, oddeutu bod dau fis, mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel sesiynau “Holi Huw”, yn gyfle i rannu newyddion, digwyddiadau, ac yna mae'r staff yn cael cyfle i'w holi - drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Dyfodol

I'r dyfodol mae YGC am:

- Ymestyn ymhellach defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn YGC, gyda chyrrff eraill, sef ein contractwyr a'n ymgynghorwyr, drwy barhau i gynnal sgysiau yn y Gymraeg, a hefyd ymateb i e-byst drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae ein cofnodion Tîm Rheoli a'r Panel Hyfforddiant o reswm yn y Gymraeg yn barod.
- Parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg.
- Rhannu gwybodaeth am unrhyw hyfforddiant yn y Gymraeg i'r Adran gyfan.
- Trefnu hyfforddiant y Gymraeg ar gyfer staff yr Adran.
- Rhoi newyddion a chyhoeddiadau ar Sharepoint yn y Gymraeg.
- Siarad Cymraeg gyda'n Dysgwyr.

I gloi rwyf yn hynod o falch o adrodd bod 24 aelod o staff yr Adran wedi mynychu hyfforddiant iaith ers 2018, mewn amser heriol iawn i bawb (sy'n cynnwys cyrsiau allanol a chysiau mewnol naill i ddysgu'r Gymraeg neu i ddatblygu eu sgiliau presennol).


Fforwm Dynodiadau Iaith

Prosiect Dynodiadau Iaith

- ▶ Bu i YGC fod yn rhan o'r cynllun peilot dechreuol i'r Prosiect Dynodiadau Iaith.
- ▶ Bu i'r gwaith ymchwil yma fod yn lwyddiant i'r adran gyda 92% yn cyrraedd y dynodiadau iaith y swydd.
- ▶ Bu i ni gydweithio'n agos â'r swyddogion Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg, gyda'r adran yn casglu hunanasesiadau er mwyn cefnogi'r staff nad oeddynt yn cyrraedd yn gofynion iaith.
- ▶ Mae staff yr Adran i gyd (100%) wedi cwblhau'r holiadur hunan asesu.

Cynllun Cyfeillion

- Mae'r Cynllun Cyfeillion wedi'i sefydlu i gefnogi un o amcanion y prosiect, sef helpu staff y Cyngor i gyrraedd dynodiadau iaith eu Swyddi.
- Pwrpas y cynllun yw rhoi cyfle i staff sydd ar ganol derbyn hyfforddiant, neu newydd orffen i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, a gofyn am help mewn sefyllfa gyfforddus.
- Ar hyn o bryd mae 3 aelod o Staff YGC yn rhan o'r Cynllun.



Gwersi Cymraeg

- Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu ar y cyd gyda'r Swyddogion Datblygu'r Gymraeg a ninnau. Byddem yn adolygu'r cyrsiau sydd yn cael eu cynnig, a hefyd yn adolygu'r staff sydd gennym ar wahanol gyrsiau.
- Yn ystod y cyfnod clô, mae'r gwersi Cymraeg wedi parhau gennym.



*Cynnal y gwersi Cymraeg
drwy gyfrwng Teams*

Cynllun Arfer drwy'r Brifysgol

- Bu i'r Gwasanaeth Dwr ac Amgylchedd gytuno i gydweithio ar y Cynllun Arfer drwy Brifysgol Bangor.
- Bu'r Cynllun yma fod yn llwyddiannus, gan eu bod bellach yn cynnal eu sgysiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac hefyd yn ymateb galwadau ffôn yn y Gymraeg.
- Bwriad y prosiect oedd newid arferion iaith i alluogi cydweithwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg (ond wedi sefydlu arferiad o ddefnyddio Saesneg) – i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.
- Mae 14 aelod o staff yn yr Uned Amgylchedd, gyda 8 aelod yn Gymraeg iaith gynta', a'r 6 arall wedi dysgu'r Gymraeg o'r dechrau. Mae hyn yn enghraifft dda iawn o safbwynt dysgu a datblygu.

Gwobr Dafydd Orwig

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae 5 aelod o staff YGC wedi curo'r Wobr Goffa Dafydd Orwig.

- 4 wedi dysgu'r iaith Gymraeg
- 1 wedi hyrwyddo ac wedi hybu'r iaith Gymraeg yn y gweithlu.



Cymwysterau proffesiynol Eng Tech

- Mae rhan fwyaf o wasanaethau YGC yn y maes Peirianeg Sifil, rydym yn cydweithio yn agos hefo'r "ICE – Institute of Civil Engineers".
- Mae llawer o'n technegwyr ifanc yn gweithio tuag at gael cymhwyster proffesiynol a elwir yn "Eng Tech".
- Rydym wedi ffurfioli'r drefn gyda'r ICE i allu cynnal y cyfweiliadau a chyflwyno'r gwaith ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Newidwyd y drefn o drefnu'r cyfweiliadau proffesiynol au cynnal yng Nghymru.

Buddsoddwyr Mewn Pobl

- ▶ Yn ddiweddar rydym wedi llwyddo i gael achrediad safonol – Buddsoddwyr Mewn Pobl.
- ▶ Roedd y broses yma yn cael ei chydgordio gan Menter Môn a YGC – drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ▶ Cafodd yr holiaduron staff eu cylchredeg yn ddwy ieithog.
- ▶ Cynhaliwyd y cyfweiliadau a'r cyfarfodydd paratoi yn y Gymraeg.
- ▶ Bydd yr Adroddiad terfynol hefyd yn ddwy ieithog.



gwerth mewn gwahaniaeth
delivering on distinction



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Datblygu Sgiliau Cymraeg

- ▶ Hyfforddiant parhaus yn cael ei gynnal i ddatblygu sgiliau Cymraeg yr Adran.
- ▶ Cylchredeg gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg i'r staff drwy ebost.
- ▶ Hybu hyfforddiant yn y Gymraeg – drwy ebyst, newyddion ar Sharepoint, Panel Hyfforddiant.

Rhannu arfer da

- Gosod newyddion yn rheolaidd ar Sharepoint.
- Cylchredeg ebyst i Staff yn y Gymraeg.
- Mae gan yr Adran Fwletin Staff sydd yn cael ei gylchredeg bob deu fis, yn y Gymraeg.
- Mae'r Pennaeth yn cynnal cyfarfodydd gyda pob Uned, oddeutu bob deu fis, mae'r rhain yn cael eu adnabod fel sesiynau "Holi Huw", yn gyfle i rannu newyddion, digwyddiadau, ac yna mae'r staff yn cael cyfle i'w holi – drwy gyfrwng y Gymraeg.



Parhau i newid diwylliant y Gymraeg yn y gweithle

- ▶ Ysgrifennu cofnodion Tim Rheoli a'r Panel Hyfforddiant yn y Gymraeg.
- ▶ Rhannu gwybodaeth am unrhyw hyfforddiant yn y Gymraeg i'r Adran gyfan.
- ▶ Trefnu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff yr Adran.
- ▶ Rhoi newyddion a chyhoeddiadau ar Sharepoint yn y Gymraeg.
- ▶ Gyrru pob e-bost yn y Gymraeg.
- ▶ Siarad Cymraeg gyda ein Dysgwyr.
- ▶ Ymestyn ymhellach defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn YGC, gyda chyrrff eraill, drwy barhau i gynnal sgwrsiau yn y Gymraeg, ac ymateb i e-byst.
- ▶ Parhau i weithio'n agos hefo'r Adran Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg.

Ffaith Diddorol

- ▶ Ers 2018 mae tua 24 aelod o staff yr adran wedi mynychu hyfforddiant iaith (sy'n cynnwys cyrsiau allanol a chyrsiau mewnol naill i ddysgu'r Gymraeg neu i ddatblygu eu sgiliau presennol).

Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Iaith
DYDDIAD	7 Ebrill 2022
TEITL	Adroddiad Adran Economi a Chymuned
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith
AWDUR	Sioned E Williams, Pennaeth Economi a Chymuned

1 CEFNDIR

- 1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais y Pwyllgor Iaith am wybodaeth am gyfraniad yr Adran Economi a Chymuned i bolisi iaith Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gynnydd dros y flwyddyn diwethaf ac amgaeaf gopi o adroddiad 2021 er gwybodaeth - [Adroddiad Pwyllgor Iaith 29 Ebrill 2021](#)
- 1.2 Yn 2022 mae 96.3% o staff Adran Economi a Chymuned wedi cyrraedd dynodiad iaith eu swydd; a hynny o'i gymharu â 97% yn 2021. Er bod lleihad bychan yn y canran, mae hyn yn adlewyrchiad o'r cynnydd mewn staff dros dro benodwyd yn y flwyddyn diwethaf i ymateb i sefyllfa COVID. Nifer bychan o staff sydd ddim yn cwrdd â'r dynodiad ac mae anogaeth a chymorth ar gael i'w cefnogi i ddatblygu eu sgiliau.
- 1.3 Mae'r tabl canlynol wedi ei baratoi mewn ymateb i gwestiynau penodol y Pwyllgor ac enghreifftiau o wasanaethau'r Adran hoffwn eu hamlygu wedi cael eu cynnwys.

2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

<p>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod :</p>	<p>Cwestiwn 1:</p>
<p>Hybu a hyrwyddo - Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p>	<p>Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</p>
<p>Ystyriaf fod y canlynol yn enghreifftiau da yn yr Adran o brosiectau a gwasanaethau sydd wedi cyfrannu dros y flwyddyn ddiwethaf at Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd:</p> <p>Gwasanaeth Llyfrgelloedd: Mae gweithgareddau rydym yn eu trefnu trwy'r Llyfrgell ac mewn partneriaethau ag eraill, yn rhoi cyfleoedd i bobl, yn oedolion a phlant a theuluoedd i glywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio ac yn gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg a dysgu o ymarfer da o'r profiad hwn. Er enghraifft, sesiynau i fabanod (rhieni newydd), amseroedd stori i blant, paned a sgwrs i Ddysgwyr Cymraeg, sesiynau gyda Cymraeg i Blant, cyrsiau Addysg Gymunedol Oedolion. Mae Gwynedd hefyd yn arwain ar y cynllun Llyfrau Print Bras Cymraeg yn genedlaethol, ac yn hwyluso e-lyfrau llafar i fod ar gael i oedolion a phlant. Mae prosiectau gyda Blynnyddoedd Cynnar a Cynllun Cyfuno, yn darparu pecynnau dwyieithog i rieni plant ifanc, a lle rhoddir pwyslais ar fwynhau straeon trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Gwasanaeth Archifau: Mae'r Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd yn darparu deunydd a gweithgareddau i ysgolion ar draws Gwynedd er mwyn iddynt ddeall eu cymunedau, phwysigrwydd y Gymraeg a hunaniaith lleol.</p> <p>Gwasaneth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau: Rydym yn gweithio gyda llawer o bartneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn estyn allan i gymunedau drwy'r sir gorau gallem. Natur ein gwaith yw estyn allan gyda phrosiectau iechyd a lles; dysgu; hyfforddiant ayyb a hefyd rhoi mynediad a chyd-destun i'n diwylliant a'n iaith yn ein safloedd amgueddfaol (gweler mwy yng nghwestiwn 4). Er enghraifft yn ystod y cyfnod clo trefnwyd pecynnau prysur i fynd allan i gartrefi teuluoedd drwy gydweithio â sawl phartner fel elusennau, banciau bwyd, mudiadau gwirfoddol, cartrefi henoed, ysgolion drwy Wynedd a phawb yn cael pecyn dwyieithog; hefyd ein gweithgareddau yn y Gymraeg fel sesiynau Crefft er Lles (ar lein/ffisegol); Babi a Ni i deuluoedd; Llesiant i Mi i gefnogi Llesiant trigolion Gwynedd a llawer mwy.</p>	

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau: Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn cydweithio gydag Adrannau'r Cyngor ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol i ddatblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. Un o'r egwyddorion sydd wedi eu cytuno arnynt i'r dyfodol yw: Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth a bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i hybu perchnogaeth leol ac i ddatblygu cyfleon i amlygu'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddi ar ddatblygu mesuryddion cynhwysfawr newydd ar gyfer yr economi ymweld ac mae trafodaethau wedi cychwyn gyda Phrifysgol Bangor i adnabod dulliau synhwyrol o ymchwilio effaith (cadarnhaol a negyddol) yr economi ymweld ar iaith ein cymunedau.

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	Cwestiwn 2:
<u>Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti -</u> Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?	Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?
Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor yn benodol at y cytundebau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Llyfrgell – sicrhau fod gwefannau ac apiau ar gael yn ddwyieithog e.e. gwefan ac ap Borrowbox (trydydd parti – amodau iaith yn y tendr), ap Pori (disgwyl bod cydymffurfiaeth o'r gofynion iaith o'r cychwyn) • Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau - sicrhau bod ein gofynion yn cyrraedd gofynion yr Iaith Gymraeg gydag amodau yn y tendr (gwefan/archebu ar lein/dehongli/ comisiynau yn gofyn am rai sydd yn gallu'r iaith e.e. Celf ar Bresgripsiwn. Wrth ddyrannu grantiau strategol mae gennym gymal yn gofyn iddynt gydymffurfio a'n polisiau iaith. • Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio: Holl ddogfennau tendro yn ddwyieithog a'r tendrau yn nodi fod angen sicrhau cydymffurfio gyda Polisi Iaith Cyngor Gwynedd. 	

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	Cwestiwn 3:
<u>Gweithredu'n ddwyieithog -</u> Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg?	Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg? Gall hyn fod ar draws yr adran neu mewn gwasanaethau penodol.
<p>Dyma rai rhwystrau sydd wedi cael eu hadnabod o fewn yr Adran:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Llyfrgell – rhwystrau yn codi wrth geisio cyflenwi gwasanaeth darparu adnoddau yn Gymraeg. Mae rhywun yn gorfod gwneud cynlluniau i ddarparu nhw ein hunain gan nad ydynt ar gael yn fasnachol e.e. llyfrau print bras Cymraeg, llyfrau llafar Cymraeg ac e-lyfrau llafar Cymraeg (cydweithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas y Deillion gogledd Cymru) ac mae hyn yn ychwanegu at lwyth gwaith wrth reswm. • Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau - datblygu cynllun gwirfoddoli wedi profi'n heriol ac yn anodd denu siaradwyr Cymraeg. Angen annog dysgwyr a denu rhai i'n "awyrgylch" Cymraeg. Recriwtio i swyddi/prosiectau/comisiynau/cynnal gweithgareddau yn anodd ar hyn o bryd a fwy felly o ran yr Iaith Gymraeg. Methu penodi a gorfod ail feddwl sut i symud ymlaen. Er mwyn llunio ceisiadau grant yn y Gymraeg weithiau angen trefnu cyfieithiad Saesneg i eraill ei ddeall neu angen gofyn i weld y cyfieithiad i sicrhau cywirdeb. 	

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	Cwestiwn 4:
<u>Datblygu cyfleoedd newydd</u>	Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?
<p>Amlygaf isod rai meysydd lle gwelaf gyfleoedd i'r Adran wneud mwy o gyfraniad i hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau - Oherwydd natur ein gwaith rydym yn hyrwyddo ein diwylliant ac yn rhoi cyd-destun ein Cynefin. Mae ein casgliadau amgueddfaol gyda deunydd sydd yn ysbrydoli, addysgu, herio i sbarduno trafodaeth a dysgu ayyb. E.e. eitemau yn ymwneud â phobl amlwg a gyfrannodd at ein hanes fel Caradog Pritchard; T H Parry Williams; eitemau o hanes yr iaith fel y Welsh Not ayyb. Mae cyfle wrth lunio rhaglenni a gweithgareddau i ddefnyddio ein hadnoddau fel arddangosfeydd /gweithdai i adnabod themâu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth. Rydym yn cydweithio yn eang e.e. Menter Iaith, Prifysgol Bangor, grwpiau amrywiol e.e. Affro Caribiaidd. Bu i ni drefnu gorymdaith Gŵyl Dewi Sant efo rhai o'r rhain yn ddiweddar gan rannu ein diwylliannau amrywiol a'n iaith Gymraeg. Rydym wedi ceisio sawl gwaith am grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth ac eraill fel Mudiad Meithrin ac artistiaid amrywiol i geisio cael rhaglen o weithgareddau i gael pobl i ddefnyddio'r iaith mewn modd naturiol drwy'r celfyddydau a threftadaeth e.e. dysgu enwau llefydd ac i rai sydd wedi symud mewn cael cyfle i ddod i adnabod yr ardal leol. Hyd yma yn aflwyddiannus ond rydym efo diddordeb mawr i gario mlaen gyda hyn. • Gwasanaeth Rhaglenni Datblygu'r Economi – Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo £11m yn ei gyllideb ar gyfer Rhaglen Arfor 2 dros y 3 blynedd nesaf. Y bwriad ydi dysgu o brofiadau Rhaglen Arfor 1 a buddsoddi mewn rhaglenni newydd fydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chreu bwrlwm economaidd ar draws Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gar. Mae trafodaethau wedi cychwyn yn barod rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol er mwyn cytuno ar sgôp y gwaith a byddwn yn mynd ati dros y misoedd nesaf i ddatblygu pecyn o brosiectau newydd gyda datblygiad yr iaith Gymraeg yn ganolog iddynt. 	

Eitem 8

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	7 Ebrill 2022
TEITL:	Diweddariad ar waith Hunaniaith – Menter Iaith Gwynedd
AWDUR:	Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwynir yr adroddiad hwn er mwyn rhoi cefndir i aelodau'r Pwyllgor am waith a blaenoriaethau cyfredol y fenter.

1. Cefndir

1.1 Bwriad sylfaenol Hunaniaith, Menter Iaith Gwynedd yw cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau ac ym mhob cymuned ledled Gwynedd. Yn yr adroddiad hwn, edrychir yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf a chyflwyno esiamplau o waith y swyddogion er mwyn gwella dealltwriaeth yr Aelodau o'r math o ymyraethau sydd yn cael eu cynllunio ar draws y gwahanol feysydd.

2. Trosolwg o waith 2021-2022

2.1 O ganlyniad i Covid-19 penderfynwyd parhau i ddarparu a datblygu adnoddau a gweithgareddau ar-lein yn bennaf a cheisio darparu gweithgareddau wyneb yn wyneb pa fo hynny'n addas. Blaenoriaethwyd gweithgareddau plant, pobl ifanc a dysgwyr gan fod hyn wedi ei nodi fel blaenoriaeth gan y mwyafrif a wnaeth ymateb i holiadur Hunaniaith ynghylch beth a ddylid ei wneud er mwyn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.

2.2 Parhawyd i roi cefnogaeth i annog a chynnal gweithgareddau yn yr ardaloedd a ddewiswyd i'w targedu cyn cychwyn cyfnod Covid-19 sef Abersoch, Nefyn, Y Bala a Bangor. Yn dilyn cyhoeddi data cyfrifiad 2021 ynghylch yr iaith Gymraeg a derbyn gwybodaeth am ganlyniadau ymgynghoriad Ardal Ni 2035 byddwn yn edrych ar adnabod ardaloedd newydd i'w targedu a chreu rhaglen waith newydd i'r fenter.

2.3 Yn dilyn cyflwyno achos busnes i'r Cabinet mis Tachwedd 2021 penderfynodd y Cabinet gymeradwyo ymrwymiad £203,880 o'r Gronfa Trawsffurfio, yn unol â dymuniad Grŵp Strategol Hunaniaith, er mwyn ariannu swydd ychwanegol llawn amser, Pen Swyddog Hunaniaith, am gyfnod o 4 blynedd. Pwrpas y swydd yw arwain ar y gwaith o sefydlu'r fenter fel endid annibynnol, gan ganolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol gan arwain y fenter fel uned o fewn y Cyngor am y tro. Cymeradwywyd y cais gan y Cyngor llawn mis Mawrth 2022 ac yn sgil hynny penodwyd Iwan Hywel fel Pen Swyddog Hunaniaith. Bydd yn cychwyn yn ei swydd newydd mis Mai.

Prosiectau penodol

2.4 Creu adnoddau a gweithgareddau newydd ar-lein

2.4.1 Pecyn Digidol Ymwybyddiaeth Iaith

Gan nad oedd modd mynychu ysgolion i gynnal ein sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith: 7 Peth Pwysig, amlygwyd bod angen creu fersiwn digidol ohono. I'r perwyl hwn, penderfynwyd defnyddio rhaglen Doodle ac i gomisiynu Engan Creadigol i gynhyrchu'r gwaith graffeg perthnasol. Cyn hynny, rhaid oedd creu sgrïpt a bwrdd stori fel modd i gyfleu'r cynnwys a ddymunwyd, ac i gloi comisiynwyd Leisa Gwenllian i drosleisio'r delweddau. Rhannwyd fersiwn uniaith Gymraeg a fersiwn gydag isdeitlau; ynghyd â chwis Cymraeg a Dwyieithog ar Kahoot! gydag ysgolion Gwynedd, grwpiau ieuencid y sir, ac ar ein cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan yr ysgolion - *"Dwi'n ei licio fo'n fawr iawn ac mae o'n adnodd gwerthfawr iawn i'w gael yn ddigidol i gyflwyno'r hanes a dechrau trafodaeth efo plant. Y Cwis Kahoot hefyd yn codi brwdfrydedd...gwych!"* Gellir gweld y fideo drwy glicio'r isod:

Fideo Ymwybyddiaeth Iaith: https://youtu.be/f6GI_Oa0C2w
Dolen Cwis Cymraeg - <https://kahoot.it/challenge/002104556>
Game PIN: 002104556

2.4.2 Pecyn Digidol 'Cyflwyniad i Iaith a Diwylliant Gwynedd'

Ar Fawrth 1af, lanswyd pecyn digidol ar wefan Uned Iaith y Cyngor, yn cynnwys llyfryn i'w rannu gyda newydd-ddyfodiaid i Wynedd ac â phobl sy'n ystyried dod i Wynedd i fyw. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y lle canolog sydd gan y Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd, y manteision a geir o'i siarad, cyfeiriad at bolisi iaith ysgolion Gwynedd a'r gefnogaeth sydd ar gael i blant, i bobl ifanc ac oedolion i'w dysgu. Bu i Hunaniaith gydlynw a chomisiynu 3 fideo i gyd-fynd â'r llyfryn gyda chwmni Snapyn TV, fel a ganlyn:

- Gwers blasu efo Ann Bierd:
Rho gynnig arni: ychydig eiriau <https://youtu.be/f5NceTctfe0>
- Dysgu a Mwynhau yn Gymraeg:
Stori Alex <https://youtu.be/5gtitaJX0h8>
Stori Carrie <https://youtu.be/yYXFWyZqchl>

2.4.3 Cyfres fideos 'Ar y Llwyfan'

Yn sgil diffyg cystadlu byw ers dwy flynedd, daeth i'r amlwg mewn sgysiau â phobl ifanc bod pryder parthed cystadlu byw mewn eisteddfodau. Mewn trafodaethau â swyddogion Urdd Eryri a Meirionnydd penderfynwyd creu adnodd i godi hyder cystadleuwyr Blwyddyn 10 a dan 19 oed yn benodol, sef cyfres o 3 fideo byr "dosbarth meistr" dan y teitl Ar y Llwyfan, sef:

- Llefaru gyda Bethan Elin <https://youtu.be/AbawBqzvGng>
- Cerdd Dant gyda Catrin 'Toffoc' Jones <https://youtu.be/IJX9ZbzipioA>
- Canu Unawd gyda Ffion Emyr <https://youtu.be/Ydbj8lRsyOs>

Er eu hanelu at gystadleuwyr Blwyddyn 10 a dan 19 oed, mae negeseuon y fideos, mewn gwirionedd, yn berthnasol i bawb sy'n cystadlu. Recordiwyd y gyfres yn Stiwdio Sain dechrau Ionawr gan gwmni FfotoNant, a'u golygu mewn da bryd i'w rhannu gydag ysgolion Gwynedd ac aelwydydd Cymru benbaladr cyn y dyddiad cofrestru.

2.4.4 Llwyfan Llŷn

Bu'n nod gan Anni Llyn, yr awdur a'r gyflwynwraig o Fotwnnog i sefydlu ysgol lwyfan ym Mhen Llŷn ers tro. Roedd ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol a Llŷn ac Eifionydd yn 2021 yn ysgogiad iddi fynd ati o ddifri i wireddu'r freuddwyd. Fodd bynnag pan darodd Covid -19 yng ngwanwyn 2020 rhaid oedd i'r cynlluniau aros. Rhag bod y cynlluniau yn sefyll yn eu hunfan daeth Hunaniaith i'r adwy a chynnig partneriaeth i Anni ddechrau cynnig gweithgaredd ar-lein i blant yn eu cartrefi drwy gyfrwng Zoom. Dros y gaeaf yn 2020-21 ac hefyd gaeaf 2021-22 cynigwyd 17 o weithdai ar foreuau Sadwrn ar themâu oedd yn cynnwys actio, canu, llefaru, dawnsio a sgriptio. Hyd yn hyn mae 35 o blant wedi ymuno a'r gweithdai; y mwyafrif ohonynt o Llŷn, sawl un o rannau eraill o Wynedd ac ambell un o Bowys.

2.4.5 Clwb Gemau Fideo

O sylweddoli a gwerthfawrogi pwysigrwydd gemau fideo yn gymdeithasol i blant a phobl ifanc, daeth Hunaniaith a Mentrau Iaith eraill y gogledd ynghyd eleni er mwyn rhannu sgiliau a dyletswyddau, a galluogi'r capasiti i gynnal gweithgaredd mor boblogaidd. Ar wahân i'r ochr drefniadol, rôl swyddogion y Mentrau yw llenwi bylchau chwarae lle bo'r angen ond yn bennaf i sgwrsio gyda'r chwaraewyr a thrwy hynny sicrhau mai'r Gymraeg sy'n cael ei siarad. Dyma enghraifft o gynllunio iaith ar lefel micro drwy ddylanwadu ar arferion iaith. Yn dilyn twrnamaint cychwynnol tra phoblogaidd, cynhaliwyd sesiynau misol rheolaidd gyda 2 grŵp oedran: 7-11 a 12-15. Mae'n broses o ddysgu parhaus i wella'r ddarpariaeth ond mae'r rhai sy'n mynychu'n mwynhau'n arw. Dyma adborth gan un sydd wedi bod yn mynychu yn rheolaidd - *"Dwi wedi mwynhau'r sesiwn yn fawr iawn. Mae chwaraer fi efo pony club a dwi 'rioed wedi cael rhywbeth fel 'na, a dwi finally wedi ffeindio rhywbeth, a dwi rili wedi enjoio fo."*

2.4.6 Cwisiau Kahoot!

Mewn cydweithrediad â swyddogion Mentrau Iaith eraill y gogledd, crëwyd cwisiau ar Kahoot i ddathlu Diwrnod Shwmae Su' mae, Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru a Dydd Gŵyl Dewi. Gwahoddwyd ysgolion y sir i ymuno yn yr hwyl ynghyd â'u rhannu ar ein cyfryngau cymdeithasol. Mae'r niferoedd canlynol yn perthyn i Hunaniaith yn unig ac yn adlewyrchu'r angen am y math yma o adnodd:

- **Diwrnod Shwmae Su' mae:** 471 o chwaraewyr
- **Dydd Santes Dwynwen:** 930 o chwaraewyr
- **Dydd Miwsig Cymru:** 1,498 o chwaraewyr
- **Dydd Gŵyl Dewi:** 1,011 o chwaraewyr

2.4.7 Cynhadledd 16+

Mewn cydweithrediad â Sgiliaith, Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Grŵp Llandrillo Menai cynhaliwyd y 4ydd mewn cyfres o gynadleddau ar y thema Cymraeg: Cyfle & Cyflog i godi ymwybyddiaeth o fanteision a gwerth y Gymraeg ymysg pobl ifanc 16+, a thrwy hynny ddylanwadu ar eu defnydd iaith i'r dyfodol. Canolbwyntiwyd ar fyfyrwyr y sector digidol / gemau fideo eleni gan gynnig rhaglen o siaradwyr gwadd fel a ganlyn:

Cynhadledd Gwerth y Gymraeg yn y Byd Digidol Bore Gwener, Chwefror 18fed, Zoom

Agor y gynhadledd: Aled Jones Griffith, Pennaeth Coleg Menai a Meirion-Dwyfor
Araith agoriadol: Garfield Lloyd Lewis, Gogledd Creadigol
Llywela Owain, Hunaniaith
Pryderi ap Rhisiart, M-Sparc
Orig Jones, Tinint
Owain Saunders-Jones, Atebol
Siwan Owen, Electronic Arts
Guto Rhun, Hansh
Bedwyr Rees, Rondo
Gair i gloi: Paul Edwards Rheolwr Celfyddydau Creadigol Coleg Menai

Bwriad y cynadleddau yw codi ymwybyddiaeth o fanteision y Gymraeg mewn busnes, rhannu profiadau ac arferion da, ac yn bennaf oll, ysbrydoli. Bu 48 fynychu'n rhithiol o amrywiol safleoedd y Grŵp, er gwaetha storm Eunice!

2.4.8 Kariad

Un o arferion da Hunaniaith yw cynnig cefnogaeth gychwynnol i unigolion llawrydd sy'n awyddus i gynnal darpariaeth nad yw eto ar gael yn y Gymraeg yn lleol. Pan glywsom am brosiect arloesol Kariad gan Karen Wynne i ymdrin â cholled a newid ymhlith plant cynradd, gwelsom y byddai'n berthnasol a llesol i fynychwyr canolfannau iaith y sir.

Wedi cyfarfodydd â swyddogion Adran Addysg Cyngor Gwynedd aethpwyd ati i gydlynu peilota sesiwn hanner diwrnod rhyngweithiol yn llawn hud a lledrith ym mhob un o'r 4 canolfan iaith gynradd, yn saff dros y we. Cafwyd ymateb cadarnhaol dros ben i'r gweithgareddau hyn nes i'r Adran Addysg gyllido rhagor o sesiynau yn y canolfannau iaith ar gyfer y tymor dilynol, gyda'r awydd i ymestyn y ddarpariaeth i ysgolion cynradd y sir drwy'i gynnwys yn eu strategaeth Grant y Gymraeg, a bod

darpariaeth gyfatebol yn cael ei gynnig i oedrannau uwchradd yn ogystal. Mae Hunaniaith ar hyn o bryd yn cychwyn y broses o hwyluso datblygu'r cynnwys ar gyfer yr oedran hŷn drwy gynnig cefnogaeth bellach i Karen. Dyma enghraifft o adborth a gafwyd

2.4.9 Paned a Sgwrs Dysgwyr Dwyfor

Pob bore Llun oddi ar gwanwyn 2020 mae swyddog Hunaniaith yn Nwyfor wedi ymuno a sesiwn Paned a Sgwrs Dysgwyr Dwyfor drwy gyfrwng MS Teams. Mae'r gwasanaeth Dysgu Cymraeg yn yr ardal hon o Wynedd wedi hwyluso'r sesiwn ers cychwyn argyfwng Covid-19 ac mae'n parhau i fod yn ddigwyddiad poblogaidd i hyd at 25 o ddysgwyr pob wythnos. Rhennir pawb sy'n ymuno rhwng nifer o ystafelloedd llai gyda swyddog Hunaniaith yn cymryd y cyfrifoldeb am 4 neu 5 o siaradwyr mwy medrus am awr o sgwrsio. Bellach mae Hunaniaith wedi bod yn bresennol mewn mwy na 60 o sesiynau wythnosol ac wedi adeiladu perthynas dda gyda'r tiwtoriaid a'r dysgwyr fel eu gilydd; perthynas sydd wedi esgor ar gydweithio effeithiol ar brosiectau eraill megis Teithiau Cerdded Dysgwyr Dwyfor a Dysgwyr Dan Do.

2.5 Ail gyflwyno gweithgareddau wyneb yn wyneb

Yn sgil llacio rheolau Covid-19 penderfynwyd ail gychwyn gweithgareddau wyneb.

2.5.1 Teithiau Cerdded Dysgwyr Dwyfor ac Arfon

Drwy gydweithio effeithiol gyda'r tiwtoriaid Dysgu Cymraeg yn Nwyfor ac Arfon trefnodd Hunaniaith ddeg o deithiau yn y ddau ddalgylch yn ystod haf 2021; **6** yn y naill ardal a **4** yn y llall. Hanfod pob taith oedd bod yna unigolyn lleol, wedi ei wahodd gan Hunaniaith yn arwain pob un o'r teithiau. Rhoddodd hynny flas lleol unigryw i bob un o'r teithiau. Rhoddodd gyfle hefyd i'r dysgwyr ymarfer eu sgwrsio, ddod i adnabod hanes a thirwedd y fro ac i gymhathu i'r gymdeithas Gymraeg ei hiaith.

Ymwelodd y teithiau yn ardal Dwyfor a ac ardal Y Rhiw, Llanbedrog, ardal Tudweiliog a Phorth Ysgaden, Nantmor, glannau afon Dwyfor a Borth-y-gest. Bu teithiau Arfon yn crwydro tref Caernarfon, Penygroes, Y Felinheli a Bethesda. Llwyddwyd i ddenu arweinwyr hynod wybodus a difyr gan gynnwys Gwyneth Glyn, Twm Morys a Rhys Mwyn. Yn ogystal a'r teithiau yma, a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos cafwyd un daith neilltuol ar ddydd Sul ym mis Medi pan aeth Rhys Mwyn a 22 o ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr profiadol ar daith i Dre'r Ceiri.

2.5.2 Teithiau Cerdded Dro & Jangyl

Fel dilyniant i Glwb Sgwrsio Rhithiol haf y llynedd ar gyfer dysgwyr ardal Llanberis, comisiynwyd tiwtor Cymraeg lawrydd leol, Ann Bierd, i gydlynu ac arwain teithiau wyneb yn wyneb drwy gydol y flwyddyn (gydag addasiad munud olaf i sesiwn rhithiol yn yr hydref oherwydd y tywydd). Rhoddwyd y teitl Dro & Jangyl i'r gweithgareddau er mwyn pwysleisio eu natur anffurfiol i roi cyfle i ymarfer siarad a dysgu am dirwedd a hanes lleol.

2.5.3 Diwrnod Tylwyth Teg

Ar y dydd Sadwrn agosaf i Hirddydd Haf trefnwyd taith gerdded i anrhydeddu'r Tylwyth Teg a chydabod eu pwysigrwydd i lèn gwerin Cymraeg. Cymraeg iaith gyntaf oedd mwyafrif y mynychwyr gyda 3 dysgwr rhugl. 'Roedd yr awyrgylch yn braf gydag ymdeimlad o werthfawrogiad o fod mewn gweithgaredd cymdeithasol unwaith eto. Dyma'r tro cyntaf i 'r rhan fwyaf i fod yng nghwmni rhai nad oedd yn eu swigen. Cadwyd at reolau diogelwch Covid drwyddi draw gan ddiwallu pryderon a galluogi pobl i fwynhau cwmni'i gilydd.

<https://www.facebook.com/hunaniaith/photos/3942951849092418>

2.5.4 Dysgwyr Dan Do

Gan fod y tywydd yr hydref a'r gaeaf yn anwadal ar gyfer teithiau cerdded aed ati i drefnu ymweliadau i ddysgwyr Cymraeg a lleoliadau o hynodrwydd neu ddi-ddordeb hanesyddol. Cafwyd ymweliad a'r Ysgwrn ddiwedd mis Hydref; ymweliad a fu'n hynod boblogaidd gyda'r 11 a ymunodd a hi. Ddechrau Rhagfyr ymunodd 14 o ddysgwyr a'u cefnogwyr ac ymweliad i Storiell ym Mangor ond bu rhaid gohirio ymweliad ac Amgueddfa Lloyd George ym mis Ionawr oherwydd ymlediad feirws Omicron.

2.5.5 Sesiynau Cymraeg NATURIOL

Comisiynwyd **Catrin Roberts**: tiwtor Cymraeg llawrydd, naturiaethwraig a mam i blentyn ifanc o ardal 'Stiniog, i gynllunio ac arwain cyfres o sesiynau drwy gydol y flwyddyn i gyfuno dysgu Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth o fyd natur i blant bychain a'u hoedolion. Ffocws y sesiynau oedd natur, hanes a mwynhau: gan ddysgu cystrawennau ac enwau Cymraeg wrth gerdded, sylwi, a chwarae gemau syml. Cafwyd adborth cadarnhaol:

"We have really enjoyed the walks, it's helped us with our Welsh, we've learned interesting facts and had a really good time."

"Dwi'n hoffi'r'r grŵp a dysgu Cymraeg Naturiol in such an unpressured kind of walk. Hoping to join you again. Diolch."

2.5.6 Helfa Drychfilod Nefyn:

Cydweithiwyd gydag Amgueddfa Forwrol Llŷn i drefnu sawl gweithgaredd i blant dros yr haf. Trefnwyd Helfa Drychfilod i blant oedran cynradd yng ngweirglodd yr Amgueddfa ar y 26.08.21; lleolir yr Amgueddfa mewn eglwys hynafol yng nghanol y dref, y fynwent ganol oesol yw'r weirglodd. Daeth Anita Daimond o Antur Natur <<https://www.facebook.com/anturnatur/>> i arwain y gweithgaredd; cafodd 11 o blant o 7 o deuluoedd ddwy awr o ddifyrrwch yn chwilota'r weirglodd am infertebratau ac arachnidau. Cwblhawyd y prynhawn gyda phosau, cwis a lluniaeth, oll yn ar awyr agored.

2.5.7 Nefyn yn Oes y Tywysogion

Trefnwyd y gweithgaredd cyfnod pontio hwn ar y cyd gydag Amgueddfa Forwrol Llŷn ar 16.10.21 o dan arweiniad Rhys Mwyn yr archeolegydd. Mynychwyd y gweithgaredd gan 18 o unigolion, 6 ohonynt yn blant a'r gweddill yn unigolion, nifer ohonynt heb blant yn y gweithgaredd ond oedd ac awydd i fwynhau taith o dan arweiniad Rhys Mwyn yn Nefyn.

Profodd y gweithgaredd i fod yn boblogaidd ymysg y plant, eu teuluoedd a'r oedolion eraill. Yn y dyfodol mi fydd Hunaniaith a'r Amgueddfa yn cydweithio i ddarparu teithiau, sgysiau a gweithgareddau i oedolion yn ogystal ag arlwy i blant a phobl ifanc. Dangosodd yr adborth fod awydd gan oedolion, a dysgwyr Cymraeg i ymuno a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sy'n dehongli hanes, treftadaeth a'r amgylchedd yng nghyd-destun Nefyn a'r cyffiniau.

Dyma beth o'r adborth a gafwyd:

'Mwy o hyn plis'

*"Bore gwerth chweil, a hynod o falch ein bod wedi cael y maen i'r wal o'r diwedd!
Mae Rhys yn hwyliog, hawddgar, ac rydym yn hoff iawn o gydweithio gyda fo".*

2.5.8 Dathliad Deian a Loli

Trefnwyd y dathliad yma o'r gyfres deledu hynod boblogaidd i blant yn wreiddiol 'nol ym mis Mawrth 2020 ond fel pob trefniant arall yn y mis tyngedfennol hwnnw fe'i gohiriwyd.

Comisiynwyd Emyr Gibson a Gwion Aled, y ddau ohonynt yn actorion gyda phrofiad helaeth o weithio gyda phlant a phobl ifanc i arwain bora o weithgareddau ar thema Deian a Loli.

Cafodd y plant cyfnod pontio gyfle i ymarfer o sgriptiau o'r gyfres ac i ail greu'r golygfeydd o flaen sgrin werdd. Ar y diwedd cafodd y plant wyluo eu hunain ar gefndir digidol o'u dewis.

2.5.9 Gweithdy Celf Prosiect Ceridwen

Comisiynwyd Branwen Haf Williams i arwain gweithdy i gwblhau prosiect a gychwynnodd jest cyn y Clo Mawr ar thema Ceridwen. Cafodd y 4 murlun sy'n adrodd stori Gwion Bach eu cwblhau'n gelfydd gan 8 disgybl o flwyddyn 10 Ysgol Godre'r Berwyn. Bydd y gwaith terfynol, wedi'u fframio, i'w gweld gyferbyn â mynedfa Theatr Derek Williams i groesawu cynulleidfa oedd i'r theatr - cam cadarnhaol arall ymlaen wedi hirlwm Covid-19.

2.5.10 Prosiect Awyr Agored Bangor

Dyma brosiect sy'n anelu at weithio yn ddwys gyda charfan fechan o bobl ifanc, er mwyn gweld a ellir dylanwadu ar batrymau ac arferion iaith drwy ymyrraeth gyson. Caiff y prosiect ei arwain, dan gomisiwn, gan Wasanaeth Awyr Agored yr Urdd ac mae'n cynnwys gweithgareddau awyr agored i 15 o bobl ifanc sy'n mynychu Ysgol Tryfan. Mae'n eu cyflwyno i weithgareddau newydd ac i hanes a daearyddiaeth leol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am gyfleoedd cyflogaeth mewn maes twf yn lleol.

Mae'r prosiect yn cael ei gydlynu gan Swyddog Canolfan Datblygu Iaith Bangor sy'n aelod o staff Hunaniaith ac yn cael ei ariannu gan Fenter Iaith Bangor. Y gobaith yw ymgeisio am grant er mwyn ehangu'r prosiect yn y dyfodol a chynnig lle i rai o ddisgyblion Ysgol Friars hefyd.

3. Y dyfodol

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnig cyfleoedd newydd i Hunaniaith ddatblygu ac esblygu. Gyda phenodiad Pen Swyddog newydd i'r fenter, a fydd yn cychwyn mis Mai, gellir symud ymlaen gyda chanolbwyntio ar greu dyfodol cynaliadwy i'r fenter fel endid annibynnol o'r Cyngor.

Dros y misoedd nesaf byddwn yn rhoi sylw i:

- adolygu strwythur llywodraethu'r fenter a chryfhau'r cyswllt cymunedol
- sicrhau adnoddau priodol a ffrwd incwm rheolaidd
- cynllunio rhaglen waith newydd yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n adlewyrchu dymuniadau trigolion lleol
- gwella ein marchnata
- parhau i gydweithio gydag eraill a chynorthwyo grwpiau cymunedol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ar lawr gwlad.

4. Argymhelliad

Argymhellir bod y pwyllgor yn derbyn a nodi'r adroddiad.

Eitem 9

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	7 Ebrill 2022
TEITL:	Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Ymgynghorydd Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac engreifftiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor.

Llwyddiannau i hybu'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg i drigolion:

Mae nifer o ddatblygiadau wedi bod yn ddiweddar, wrth i drefniadau gwaith ddychwelyd i elfen o normalrwydd yn dilyn cyfnod Covid, ac wrth i ni fynd yn ôl ag ailafael neu edrych o'r newydd ar rai prosiectau a blaenoriaethau.

Mae prosiect wedi ei gomisiynu gan Is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau i edrych ar ffyrdd o ddylanwadu ar ddefnydd iaith y cyhoedd mewn gwasanaethau rheng flaen. Mae nifer o dderbynfeydd, yn y Cyngor ac mewn sefydliadau partner yn y gwasanaethau cyhoeddus, wedi eu dewis i fod yn rhan o'r gwaith ymchwil cychwynnol a fydd yn arwain at argymhellion ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg y cyhoedd.

Mae fforwm fewnol wedi ei sefydlu yn ddiweddar er mwyn monitro sut y mae'r Cyngor yn gweithredu egwyddorion a blaenoriaethau Mwy na Geiriau, y Fframwaith Strategol ar gyfer defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o'r adrannau Plant ac Oedolion, ynghyd a swyddogion Cefnogaeth Gorfforaethol, ac yn bwydo nôl i'r fforwm ranbarthol sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o sawl sefydliad ym maes iechyd, sector gofal ac awdurdodau lleol. Bydd y fforwm fewnol yn ystyried sut y gellir gwella gwasanaethau a sicrhau y cynnig rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r Ymgynghorydd Iaith a'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg wedi ailafael mewn sesiynau ymwybyddiaeth iaith i staff y Cyngor, gan dreialu sesiynau ar-lein newydd yn ddiweddar gyda'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu. Cafwyd ymateb gwych i'r sesiynau ac rydym yn awyddus i gynnal sesiynau tebyg gyda gwasanaethau eraill.

Mae'r Cyngor wedi cymryd rhan mewn sawl ymgyrch gyhoeddus i hyrwyddo'r Gymraeg dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys Diwrnod Hyrwyddo Hawliau y Comisiynydd a rhannu negeseuon ar Ddiwrnod Mamiaith Rhyngwladol.

CWYNIION ac YMHOLIADAU GAN GOMISIYNYDD Y GYMRAEG – YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH

1. Ymchwiliad CS018 – Hysbyseb Swydd Prif Weithredwr

Derbyniwyd y gwyn wreiddiol yn ystod mis Mawrth 2021, ond ni dderbyniwyd y dyfarniad terfynol a chamau gweithredu nes dechrau 2022. Caewyd yr ymchwiliad yn derfynol ar Mawrth 3ydd, 2022.

Roedd y gwyn yn ymwneud efo hysbyseb swydd y Prif Weithredwr, a'r ffaith nad oedd y Cyngor wedi cynnwys manylion am ofynion iaith yn yr hysbyseb nac wedi gwahodd ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg.

Mae gofynion y Safonau yn golygu bod yn rhaid nodi ym mhob hysbyseb swydd os yw gofynion iaith yn hanfodol, dymunol neu bod gofyn i rywun ddysgu ar ôl eu penodi.

Mae egwyddor eisoes wedi ei osod o fewn Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio y Cyngor bod sgiliau yn y Gymraeg yn ofyn hanfodol ar gyfer pob swydd, ac mae gwaith eang wedi ei wneud drwy'r prosiect Dynodiadau Iaith i sicrhau bod yr union lefel o sgiliau iaith yn cael eu nodi yn y ddogfen Manylion Person.

Roedd yr hysbyseb benodol hon, fodd bynnag, wedi dilyn trefn ychydig yn wahanol i'r arfer, ac nid oedd yn cynnwys dogfennau Disgrifiad Swydd a Manylion Person fel hysbysebion swyddi arferol. Roedd dynodiad iaith wedi ei gofnodi ar gyfer y swydd yn y system swyddi, ond nid oedd wedi ei gynnwys yn yr hysbyseb. Hefyd, roedd pecyn gwybodaeth wedi ei rannu gydag ymgeiswyr posib yn sôn am ddiwylliant ac egwyddorion gweithredu y Cyngor, ond nid oedd geiriad penodol yn nodi bod angen sgiliau yn y Gymraeg. Credwyd yn gryf bod y cyfeiriad at ddiwylliant y Cyngor a'r sir yn gwneud yr angen i fod yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn amlwg.

Yn ystod yr ymchwiliad, gofynnwyd i ni esbonio amgylchiadau'r hysbyseb, a rhannu gwybodaeth am ein polisi recriwtio. O ganlyniad i'r ymchwiliad, dyfarnwyd bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda'r Safonau isod:

136A - [wedi methu] pennu categori iaith y swydd yn Pecyn Recriwtio na'r hysbyseb ar ochr Gymraeg y wefan; ac nad yw wedi pennu'r categori iaith yn Gymraeg o gwbl wrth hysbysebu'r swydd; ac

137 – [wedi methu] wrth hysbysebu'r swydd, cynnwys datganiad sy'n nodi y caniateir ceisiadau Cymraeg, ac na fydd cais Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais Saesneg.

Roedd y dyfarniad terfynol yn cydnabod bod y swydd hon wedi ei hysbysebu mewn ffordd wahanol i'r arfer, ac nad oedd yr un achlysur hwn yn adlewyrchu trefniadau arferol y Cyngor. Gofynnwyd serch hynny i'r Cyngor wneud newidiadau i'r Polisi Recriwtio i nodi y bydd unrhyw swyddi sydd yn cael eu hysbysebu mewn dulliau gwahanol yn ateb yr un gofynion ac yn sicrhau bod y gofynion iaith a'r gwahoddiad i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg i'w gweld yn glir. Mae'r amodau isod felly wedi eu hychwanegu i'r Polisi Recriwtio, a byddant yn cael eu hymgorffori yn yr adran berthnasol o'r Polisi Iaith hefyd. Bydd y cymalau hyn yn berthnasol i unrhyw swyddi sydd yn cael eu hysbysebu heb fod yn defnyddio'r templedi safonol, megis swyddi Penaethiaid ac uwch swyddogion sydd yn defnyddio pecyn recriwtio neu secondiadau sydd yn cael eu hysbysebu mewn dulliau mwy anffurfiol.

Os bydd swydd yn cael ei hysbysebu mewn dull gwahanol, heb fod yn defnyddio'r templedi swydd ddisgrifiad a manylion person arferol – er enghraifft drwy greu Pecyn Recriwtio - rhaid sicrhau bod y wybodaeth am sgiliau allweddol yn dal i gael ei gynnwys rhywle o fewn y pecyn.

Bydd pob hysbyseb swydd yn nodi categori iaith y swydd, sef bod gofynion iaith yn hanfodol, yn unol â gofynion adran 5 uchod.

Bydd pob hysbyseb swydd (yn Gymraeg a Saesneg) yn cynnwys y datganiad canlynol fydd yn annog ymgeiswyr i gyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg, neu yn ddwyieithog ac yn nodi yn glir y bydd ceisiadau yn y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

“Rydym yn annog pob ymgeisydd am swydd gyda'r Cyngor i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

(Bydd ceisiadau sydd yn cael eu cyflwyno yn uniaith Gymraeg neu Saesneg yn cael eu trin yn gwbl gyfartal, ond gofynnir i'r ymgeisydd ystyried yn ofalus beth yw gofynion iaith y swydd a'r sefydliad ac a fyddai cyflwyno cais yn uniaith Gymraeg yn fwy addas). “

Bydd pob hysbyseb swydd yn cynnwys y frawddeg ganlynol sydd yn tynnu sylw at weinyddiaeth fewnol cyfrwng Cymraeg y Cyngor a'r angen am sgiliau iaith priodol ymysg y gweithwyr.

“Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig ei holl wasanaethau yn ddwyieithog. Bydd angen i'r ymgeisydd gyrraedd y lefel ieithyddol sy'n cael ei nodi fel un o'r sgiliau hanfodol yn y Manylion Person.”

2. Ymholiadau

Hyfforddiant swyddogion etholiad:

Derbyniwyd ymholiad gan y Comisiynydd am hyfforddiant i swyddogion gorsafoedd pleidleisio. Roeddynt wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am ddiffyg hyfforddiant Cymraeg. Bu posib cadarnhau nad oedd yr hyfforddiant yn rhan o gyfrifoldeb y Cyngor. Mae'r hyfforddiant yn dod o dan swyddogaeth y Swyddog Canlyniadau, ac felly ddim yn dod o dan ofynion y Safonau. Derbyniwyd yr ymateb hwn a bod rôl y Swyddog Canlyniadau yn annibynnol o'r Cyngor ac felly ni arweiniodd at ymchwiliad.

Hunanwasanaeth Llyfrgelloedd:

Derbyniwyd ymholiad ym mis Chwefror 2022 am ddefnydd y gwasanaeth Llyfrgelloedd o lungopiwy'r ac argraffwyr. Roedd swyddfa'r Comisiynydd yn awyddus i wybod sut roedd y peiriannau hyn yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd ac a oedd y feddalwedd arnynt ar gael yn Gymraeg. Anfonwyd ymateb yn cadarnhau bod y llungopiwy'r ar gael at ddefnydd y cyhoedd, ond nad oeddynt yn gweithredu fel hunanwasanaeth, a bod rhaid cael aelod o staff i'w defnyddio. Nid ydynt felly yn dod o dan ofynion peiriannau hunanwasanaeth y Safonau.

Monitro Cydymffurfiaeth

Cafwyd cyfarfod monitro gyda swyddog cyswllt y Comisiynydd ym mis Ionawr 2022. Roedd hyn yn dilyn cwblhau ymarfer hunanasesu corfforaethol yn ystod haf 2021. Mae'r Cyngor wedi cael nifer o gamau gweithredu yn dilyn y cyfarfod, er mwyn gwella cydymffurfiaeth gyda'r Safonau. Mae'r Uned Iaith hefyd wedi cychwyn proses hunanasesu newydd o fewn y Cyngor, gyda hunanasesiad adrannol wedi ei rhannu gyda phob pennaeth er mwyn bwydo mewn i'n hunanasesiad corfforaethol nesaf ni

yn yr haf. Bydd yr hunanasesiadau yma yn ein galluogi i adnabod bylchau a meysydd gwella yn fwy effeithiol.

CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o	Esboniad a chamau a gymerwyd
Cyllid	1	Llythyr treth Cyngor yn defnyddio cyfeiriad Saesneg	System TG hynafol, oedd wedi ei bwydo gyda chyfeiriadau Saesneg gan y Post Brenhinol. Unigolyn yn gorfod gwneud cais ysgrifenedig i newid gwybodaeth o fewn y system a hynny yn cynnwys y cyfeiriad. Dim posib newid i ddefnyddio cofnod Cymraeg yn awtomatig – byddai angen cofnodi pob cyfeiriad yn unigol. Trafodaeth wedi ei chael gyda'r gwasanaeth am y rhwystrau a gwaith pellach ar y gweill gyda systemau TG fydd yn mynd i'r afael a'r broblem.
Ecomoni	1	Diffyg defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau	Derbyniwyd cwyn anffurfiol am fusnesau yn defnyddio enwau Saesneg mewn datblygiad newydd yn nhref Caernarfon. Esboniwyd nad oedd grymoedd gan y Cyngor i orfodi busnesau i ddefnyddio enwau Cymraeg, nad oedd y datblygiad dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor, ac hefyd bod y busnesau dan sylw yn rhai oedd yn rhan o gadwyni sefydledig, yn hytrach na busnesau newydd wedi eu sefydlu yn y safle, ac felly y byddai yn anoddach eu cael i newid. Roedd y ddau fusnes dan sylw hefyd yn defnyddio arwyddion Cymraeg o fewn y siopau, ac yn cyflogi siaradwyr Cymraeg.

Priffyrdd a Bwrdeistrefol	1	Pamffled uniaith Saesneg wedi ei dderbyn gan y cyhoedd	Derbyniwyd cwyn bod pamffledi uniaith Saesneg wedi eu dosbarthu gan gwmni Colas i rybuddio trigolion am waith ffordd. Cadarnhaodd yr adran eu bod wedi cysylltu gyda'r cwmni i ddatrys y mater, ac i sicrhau bod cyfieithiad a thempledi o rybuddion/pamffledi ar gael ganddynt yn y dyfodol. Tynnwyd sylw y gwasanaeth at y gefnogaeth prawfddarllen y gellir ei gael gan y gwasanaeth cyfieithu.
--------------------------------------	----------	--	---